**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Ymchwiliad i Leihau Allyriadau Carbon yng Nghymru**

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi newid yn yr hinsawdd a'i ganlyniadau. Drwy ein hagenda *Cymru'n Un* ar gyfer Llywodraethu, rydym yn ymrwymedig i gyflawni gostyngiad o 3% o flwyddyn i flwyddyn mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn meysydd lle mae pwerau wedi'u datganoli yn erbyn llinell sylfaen o allyriadau rhwng 2006 a 2010. Rydym hefyd yn ymrwymo yn *Cymru'n Un* i bennu targedau penodol ar gyfer lleihau allyriadau mewn perthynas â'r sector preswyl, y sector cyhoeddus a'r sector trafnidiaeth.

Ers i'r Pwyllgor gwblhau ei ymchwiliad, cyhoeddwyd Strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar y Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r Strategaeth, a'i Chynlluniau Cyflawni ategol ar gyfer Lleihau Allyriadau ac Ymaddasu, yn cadarnhau ymrwymiadau Llywodraeth y Cynulliad ym maes newid yn yr hinsawdd, ac yn nodi'r mesurau penodol yr ydym yn eu rhoi ar waith i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac ymaddasu i'r newidiadau yn ein hinsawdd na allwn eu hosgoi.

Mae'r Strategaeth yn pwysleisio ymrwymiad cadarn Llywodraeth y Cynulliad i ddangos arweiniad wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ond mae hefyd yn pwysleisio'r cyfraniad hollbwysig y mae angen i bawb yng Nghymru ei wneud.

Rydym eisoes yn helpu pobl a chymunedau ledled Cymru i gymryd camau ac yn gweithio gyda'r sector cyhoeddus, busnesau a'r trydydd sector i leihau allyriadau a rhoi mesurau ymaddasu effeithiol ar waith a gwneud hynny mewn ffordd sy'n helpu i gyflawni ein dyheadau ehangach ar gyfer dyfodol cynaliadwy i Gymru.

Rydym wedi canolbwyntio ar y camau gweithredu lle y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf, a byddwn yn adolygu ein camau gweithredu yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiadau ar y cynnydd sydd wedi'i wneud i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Croesawaf adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd; bydd ei ganfyddiadau yn ychwanegu at y gwaith a wneir eisoes gan Lywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid.

O ystyried bod yr adroddiad wedi'i gyhoeddi tuag at ddiwedd y Cynulliad hwn, bu'n rhaid i mi ystyried y gallu i gyflawni pob argymhelliad yn ofalus iawn. Lle y bo'n bosibl, rwyf wedi derbyn argymhellion yn llawn neu'n rhannol neu mewn egwyddor fel y gellir gwneud cynnydd tuag at eu cyflawni.

Isod, rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad.

## Ymatebion i'r argymhellion

| **Prif argymhelliad 1**<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei hymatebion i adroddiadau'r Pwyllgor yn sgil dadansoddiad llawn o gost a budd ein prif argymhellion. |
|---|

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rydym wedi adolygu'r prif argymhellion mewn adroddiadau blaenorol ac wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â hwy. Mae canlyniadau'r broses adolygu hon yn Atodiad A i'r ymateb hwn.

Mae Dadansoddiad Cost a Budd yn ddull pwysig a ddefnyddir gan Lywodraeth y Cynulliad i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a datblygu polisïau. Gall gael ei gynnal fel asesiad annibynnol neu drwy broses yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n rhan o broses arfarnu polisi safonol Llywodraeth y Cynulliad.

Wrth weithredu'r argymhellion yr ydym wedi'u derbyn o adroddiadau blaenorol gan y Pwyllgor, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnal Dadansoddiad Cost a Budd eisoes fel rhan o broses yr Asesiad Effaith pan oedd hynny'n briodol.

Lle y bo'n bosibl, cynhaliwyd Dadansoddiad Cost a Budd mewn perthynas â chynigion a gynhwyswyd yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleihau Allyriadau. Nid oedd yn bosibl profi'r holl ymyriadau newid ymddygiad gan ddefnyddio'r dull hwnnw gan nad oedd data priodol ar gael bob amser i gefnogi dadansoddiad o'r fath, ond rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, Gweinyddiaethau Datganoledig eraill a Phwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd i ymdrin â hyn.

**Goblygiadau Ariannol:** Mae'r goblygiadau ariannol yn ymwneud yn bennaf ag amser staff i lunio'r dadansoddiad ond mae'r gwaith hwn yn rhan graidd o'r cynlluniau monitro parhaus ar gyfer y Strategaeth.

**Prif argymhelliad 2**

Dylai Llywodraeth Cymru baratoi dadansoddiad llawn o'r costau, o ran faint o garbon a arbedir a goblygiadau ariannol y mesurau mae'n bwriadu eu gweithredu drwy ei Strategaeth ar gyfer Lleihau Allyriadau Carbon.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd a'i Chynllun Cyflawni cysylltiedig ar gyfer Lleihau Allyriadau (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010) yn cadarnhau ymrwymiadau Llywodraeth y Cynulliad a'r meysydd lle y byddwn yn gweithredu, a'r meysydd lle y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid, i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a hwyluso ymaddasu effeithiol yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleihau Allyriadau sy'n ategu'r Strategaeth yn nodi'r polisïau a'r rhaglenni penodol y byddwn yn eu gweithredu i helpu i gyflawni targed Cymru o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 3% y flwyddyn o 2011 mewn meysydd lle mae pwerau wedi'u datganoli.

Mae'r Cynllun Cyflawni yn nodi'r cyfraniadau lleihau allyriadau o'r camau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cynllunio a'r rhai sy'n cael eu cyflawni eisoes. Mae'r Cynllun hefyd yn amlygu cyfraniadau sectoraidd y DU a'r UE ac yn ehangach, a fydd yn sail i'n hymdrechion i gyflawni ein targed o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae'r dull meintoli yr ydym wedi'i ddefnyddio i asesu cyfraniad pob mesur wedi dibynnu ar astudiaethau yng Nghymru yn benodol sy'n amcangyfrif lefelau tebygol y lleihad mewn allyriadau lle bynnag y bo'n bosibl. Pan na fu data yn ymwneud â Chymru'n benodol ar gael, rydym wedi defnyddio ffigurau Llywodraeth y DU a'u hadolygu lle y bo'n briodol, a'u priodoli i gyd-destun Cymru gan ddefnyddio ystadegau o'r boblogaeth neu, yn achos mesurau'r sector trafnidiaeth, cilomedrau cerbydau. Mewn rhai achosion, mae ein dadansoddiad wedi defnyddio data o adroddiadau Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd.

Yr asesiad yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleihau Allyriadau yw ein hamcangyfrifon gorau o lefelau posibl y lleihad mewn carbon deuocsid ar gyfer y mesurau. Mae Atodiad A o'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd yn egluro'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i asesu'r mesurau lleihau allyriadau. Ceir cyfyngiadau i'r dadansoddiad hwnnw, yn benodol am mai data'r DU yw'r man cychwyn ar gyfer y rhan fwyaf o'n hamcangyfrifon, yn hytrach na chyfrifiad o'r gwaelod i fyny, oherwydd prinder data dibynadwy. Mae hyn yn golygu bod y lleihad mewn allyriadau a ddisgwylir yn sgîl polisïau a weithredir gan Lywodraeth y DU hefyd yn cynnwys rhywfaint o weithgarwch a gyflawnir drwy gamau gweithredu yng Nghymru. Felly, dim ond lle y mae'n amlwg bod mesurau penodol a gaiff eu gweithredu gan Lywodraeth y Cynulliad yn ychwanegu at y lleihad mewn allyriadau a ragdybir yn y pecyn cyflawn y maent wedi'u meintoli ar wahân.

Yn ogystal ag asesiad o botensial pob mesur i leihau allyriadau, asesodd Llywodraeth y Cynulliad gostau pob opsiwn yn ofalus wrth ystyried pa fesurau i'w cynnwys yn y Cynllun Cyflawni terfynol. Mae hyn wedi sicrhau bod y mesurau a ddewiswyd yn cynnig y gwerth gorau am arian wrth leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a sicrhau manteision eraill yng Nghymru.

Mae Tabl 1 yn nodi'r rhaglenni a'r rhagdybiaethau buddsoddi sy'n sail i'r amcangyfrif o'r lleihad mewn allyriadau yng Nghynllun Cyflawni'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Lleihau Allyriadau. Caiff yr amcangyfrifon hyn eu diweddaru bob blwyddyn fel rhan o'r adroddiad cynnydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Tabl 1**

| ***Cam Gweithredu'r Cynllun Cyflawni*** | ***Crynodeb*** | ***Arbediad Co2e amcangyfrifedig yn 2020*** | ***Cost amcangyfrifedig*** | ***Cyfnod dan sylw*** |
|---|---|---|---|---|
| | | **Trafnidiaeth** | | |
| **WT1** | Canolfannau Teithio Cynaliadwy | **0.22 Mt Co2e** | **£20 miliwn** | Dros ddwy flynedd (2010-11, 2011-12) |
| **WT2** | Dewisiadau Doethach | **Oherwydd y posibilrwydd o gyfrif mesurau fwy nag unwaith, ni chynhwyswyd arbediad ychwanegol ar gyfer WT2** | | |
| **WT3** | Cynllunio teithio a darparu gwybodaeth deithio bersonol | **Oherwydd y posibilrwydd o gyfrif mesurau fwy nag unwaith, ni chynhwyswyd arbediad ychwanegol ar gyfer WT2** | | |
| **WT4** | Datblygu cyfres o gyfnewidfeydd moddol strategol | **Oherwydd y posibilrwydd o gyfrif mesurau fwy nag unwaith, ni chynhwyswyd arbediad ychwanegol ar gyfer WT2** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **WT5** | Hyrwyddo eco-yrru | **0.03 Mt Co2e** | **£300k** | Dros ddwy flynedd (2010-11, 2011-12) |
| **WT6** | Hyrwyddo a chefnogi cerdded a beicio | **0.0005 Mt Co2e** | **£18 miliwn** | Dros ddwy flynedd (2010-11, 2011-12) |
| **WT7** | Buddsoddi mewn gwasanaethau rheilffordd | **0.004 Mt Co2e** | **£410 miliwn** | Dros ddwy flynedd (2010-11, 2011-12) |
| **WT8** | Buddsoddi mewn gwasanaethau bws | **0.001 Mt Co2e** | **£75 miliwn** | Dros ddwy flynedd (2010-11, 2011-12) |
| **WT9** | Gwella trefniadau rheoli traffig ar y rhwydwaith ffyrdd strategol | **0.02 Mt Co2e** | **£90 miliwn** | Dros ddwy flynedd (2010-11, 2011-12) |
| **WT10** | Helpu'r diwydiant cludo nwyddau i leihau allyriadau | **0.01 Mt Co2e** | **£3 miliwn** | Dros ddwy flynedd (2010-11, 2011-12) |
| **Busnes** | | | | |
| **WB2** | Yr Ymddiriedolaeth Garbon | **0.31 Mt Co2e** | **£4.8 miliwn** | 2010-11 |
| **WB3** | Galluogi busnesau i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon | **0.17 Mt Co2e** | **£0.4 miliwn** | Y flwyddyn (am dair blynedd) 2009- 2012 (er bod hyn wedi'i gwmpasu yn y gweithgarwch newid ymddygiad hefyd). |
| **WB5** | Defnyddio a rheoleiddio gwres ac ynni gwastraff yn fwy effeithlon | **0.14 Mt Co2e** | **Dim cost** | Dd/G |
| **Preswyl** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **WR1** | Rhaglenni effeithlonrwydd ynni domestig fesul ardal | **0.03 Mt Co2e** | **£15 miliwn** | Ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-2011<br><br>Arian SCIF |
| **WR2** | Rhaglenni effeithlonrwydd ynni sy'n canolbwyntio ar y rhai sydd mewn perygl o dlodi tanwydd (HEES) | **0.19 Mt Co2e** | **£19.9 miliwn**<br><br>**£2.5 miliwn** | HEES 2010-11<br><br>Cynllun Sgrapio Boeleri 2010-11 yn unig |
| **WR3** | Cefnogi cynhyrchu ynni ar raddfa gymunedol | **0.03 Mt Co2e** | **£15 miliwn** | Ynni'r Fro |
| | | **Amaethyddiaeth a Defnydd Tir** | | |
| **WA1** | Plannu Coed | | | |
| **Sector Amaethyddiaeth a Defnydd Tir** | Glastir, creu coetiroedd, rheoli dalfeydd coetir, newid ymddygiad mewn arferion ffermio a rhaglen mapio'r sectorau llaeth a chig coch | **0.6 Mt Co2e** | **WA3 (Glastir): £91.8 miliwn** | Y flwyddyn (cyllid Glastir y Cynllun Datblygu Gwledig yn bennaf) |
| | | **Effeithlonrwydd Adnoddau a Gwastraff** | | |
| **Effeithlonrwydd Adnoddau a Gwastraff** | Rhaglen i gydymffurfio â Chyfarwyddeb Fframwaith yr UE ar Wastraff, dargyfeirio gwastraff trefol bioddiraddiadwy o safleoedd tirlenwi i gyfleusterau ailgylchu, compostio a threuliad anaerobig a rhaglen i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn | **0.66 Mt Co2e** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | safleoedd tirlenwi | | | |

**Goblygiadau Ariannol:** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn sgîl yr argymhelliad hwn sy'n gofyn i Lywodraeth y Cynulliad nodi'r costau sy'n sail i Gynllun Cyflawni'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Lleihau Allyriadau.

**Prif Argymhelliad 3**

Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi, ynghyd â'i Strategaeth ar gyfer Lleihau Allyriadau Carbon, restr gynhwysfawr o'r data sydd ar gael ac nad yw ar gael ac amserlen ar gyfer casglu a chyhoeddi'r data nad yw ar gael.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi defnyddio Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr y DU wedi'i dadgyfuno, sy'n nodi allyriadau ar gyfer Cymru yn benodol, fel prif ffynhonnell data allyriadau, ar gyfer mesur y llinell sylfaen ar gyfer allyriadau ac effeithiolrwydd ein polisïau i gyflawni'r targed o 3% a thargedau sectorau, a bydd yn parhau i ddefnyddio'r rhestr honno. Caiff y rhestr wedi'i dadgyfuno ei chyhoeddi 21 mis ar ôl diwedd y flwyddyn allyriadau. Cyhoeddwyd ffigurau allyriadau 2008 ym mis Medi 2010, er enghraifft.

Er bod rhestr allyriadau'r DU yn sail i'r broses o arfarnu opsiynau polisi ar gyfer datblygu'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd, mae rhai cyfyngiadau iddi. Ni ellir defnyddio data'r rhestr i gyflwyno adroddiad mewn perthynas â pherfformiad y polisïau unigol a nodir yn y Cynllun Cyflawni, gan nad yw'r data wedi'i ddadgyfuno'n ddigon manwl i allu asesu polisïau penodol.

O ganlyniad, mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n datblygu cyfres o ddangosyddion a fydd yn golygu y gellir asesu'r polisïau unigol a'u cyfraniad at dargedau sectorau a'r targed o 3%. Cyhoeddir y data a ddefnyddir i amcangyfrif y lleihad mewn nwyon tŷ gwydr o bob un o'r polisïau wedi'u meintoli, yn ogystal â'r data y bydd ei angen i greu'r dangosyddion. Cynhelir adolygiad o'r data nad yw ar gael ar hyn o bryd.

Bydd y dangosyddion hyn yn rhan allweddol o adroddiadau cynnydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chânt eu datblygu drwy ymgysylltu â'r Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd er mwyn ei helpu i wneud asesiad annibynnol o gynnydd.

**Goblygiadau Ariannol:** Mae'r goblygiadau ariannol yn ymwneud yn bennaf ag amser staff i lunio'r dadansoddiad ond mae'r gwaith hwn yn rhan graidd o'r cynlluniau monitro parhaus ar gyfer y Strategaeth.

**Prif Argymhelliad 4**

Bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys braslun manwl o'r data y bydd angen ei gasglu ac y bydd angen cyflwyno adroddiad arno gan bob sector fel rhan o ofynion adrodd y Strategaeth ar gyfer Lleihau Allyriadau Carbon.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio'r rhestr nwyon tŷ gwydr wedi'i dadgyfuno, sy'n nodi allyriadau ar gyfer Cymru'n benodol, fel y brif ffynhonnell data i gyflwyno adroddiad ar ei thargedau sector.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

**Prif Argymhelliad 5**

Dylai Llywodraeth Cymru gasglu'r holl ymchwil ac arferion da sy'n bodoli ynglŷn â dulliau effeithiol o newid ymddygiad a'u defnyddio i gynhyrchu rhaglen gyhoeddedig ar newid ymddygiad yng Nghymru. Dylai'r rhaglen gynnwys targedau allweddol, cerrig milltir a phwyntiau gwerthuso.

**Ymateb: Derbyn**

Mae gan fentrau newid ymddygiad rôl hanfodol i'w chwarae o ran sicrhau ein bod yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig o leihad mewn allyriadau a nodir mewn polisïau a rhaglenni eraill. Rydym wedi cyfrifo y dylai newidiadau mewn ymddygiad mewn lleoliadau domestig gyfrannu'n uniongyrchol 0.12% o'r targed i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 3%.

Felly, mae angen i ni gefnogi newid mewn ymddygiad a galluogi pobl i gymryd camau: ennyn diddordeb pobl yn y rhesymau pam mae newid yn yr hinsawdd o bwys a'r hyn y gallant ei wneud; rhoi gwybodaeth, cyngor ac adnoddau sy'n helpu pobl i weld y ffordd y gall eu camau gweithredu wneud gwahaniaeth a dileu rhwystrau, cymell camau gweithredu a'i gwneud yn haws gwneud dewisiadau gwell. Mae newid ymddygiad yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd yn arbennig o gymhleth, oherwydd yr ymddygiadau cydgysylltiedig y mae angen ymdrin â hwy.

Mae'n bwysig cydnabod hefyd fod newid ymddygiad yn bwysig, nid yn unig i leihau allyriadau yn uniongyrchol, ond hefyd i sicrhau bod ymyriadau eraill a buddsoddiadau mewn seilwaith yn effeithiol, er enghraifft sicrhau bod pobl yn gwybod sut i wneud y defnydd gorau o foeler newydd mwy effeithlon.

Mae'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflawni newid ymddygiad carbon isel yng Nghymru, yn seiliedig ar fodel '4E'. Rydym wedi datblygu Strategaeth Ymgysylltu ar Newid yn yr Hinsawdd sy'n adeiladu ar y fframwaith hwn.

Mae'r Strategaeth Ymgysylltu ddrafft, a drafodwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar Newid yn yr Hinsawdd ar 14 Rhagfyr, yn mabwysiadu dull gweithredu galluogi sy'n ceisio meithrin gallu lleol a chefnogi camau gweithredu a arweinir yn lleol ac a lywir yn genedlaethol. Noda:

- Yr angen am weledigaeth a chydgysylltu cenedlaethol y mae mudiad cenedlaethol yn gofyn amdanynt;
- Trosolwg o'r ffordd y caiff gallu i gymryd camau ei ddatblygu ar bob lefel ac ym mhob sector;
- Y dystiolaeth i gefnogi camau gweithredu.

Byddwn yn datblygu cynllun cyflawni ar gyfer y Strategaeth Ymgysylltu sy'n cynnwys targedau allweddol, cerrig milltir a phwyntiau gweithredu. Rhoddir pwyslais penodol ar werthuso: mae datblygu dulliau effeithiol o newid ymddygiad yn y maes hwn yn ddisgyblaeth sy'n dod i'r amlwg, ac felly mae'n

rhaid i ni sicrhau y caiff ymyriadau eu gwerthuso'n effeithiol er mwyn darparu tystiolaeth ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Rydym wedi dechrau casglu'r ymchwil a'r arferion da mewn perthynas â newid ymddygiad a datblygu rhwydwaith i'w defnyddio.  Byddwn yn nodi'r ymchwil a'r arferion da yr ydym wedi'u nodi ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, wrth i ni ddatblygu cronfa ddata gynyddol o adnoddau i gefnogi camau gweithredu.  Rydym hefyd yn disgwyl y bydd trefniadau newydd i ategu datblygu cynaliadwy yn bwynt cyfeirio allweddol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydgysylltu rhwydwaith Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar Ddatblygu Cynaliadwy a Newid yn yr Hinsawdd, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol a mewnol allweddol.  Mae'r rhwydwaith hwn wedi dechrau canolbwyntio ar newid ymddygiad a rhagwelir y bydd yn fforwm allweddol ar gyfer meithrin arbenigedd mewn ffyrdd effeithiol o newid.

**Goblygiadau Ariannol:** Mae'r goblygiadau ariannol yn ymwneud yn bennaf ag amser staff i gasglu'r dystiolaeth a'i chyhoeddi ond mae'r gwaith hwn yn rhan graidd o rôl y tîm perthnasol.

**Prif Argymhelliad 6**

Dylai Llywodraeth Cymru glustnodi cyllid penodol ar gyfer y rhaglen newid ymddygiad a darparu digon o gyllid i gymell mesurau allweddol yn y rhaglen os na fydd dulliau gwirfoddol a dulliau gweithredu eraill yn effeithiol.

**Ymateb: Derbyn**

Er mwyn sicrhau y gwelir yr ymddygiad sydd ei angen i gyflawni targedau allyriadau Llywodraeth y Cynulliad, rydym yn derbyn bod yn rhaid rhoi ystyriaeth briodol i ddarparu adnoddau ar gyfer rhaglenni cyflawni. Fodd bynnag, yn yr un modd ag y mae'r dull o newid ymddygiad yn rhan annatod o'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd, bydd angen cyflawni llawer o'r gwaith newid ymddygiad drwy fentrau presennol a mentrau yn y dyfodol yn hytrach na chreu rhaglenni newid ymddygiad penodol.

Er enghraifft, mae ymgysylltu â'r bobl a'r cymunedau y bwriedir iddynt eu cefnogi yn rhan annatod o'r broses o gynllunio rhaglenni megis y Rhaglen Tlodi Tanwydd Cymru Gyfan newydd a Threfi Teithio Cynaliadwy. Yn yr un modd, mae ein cymorth busnes, a gyflawnir drwy'r Ymddiriedolaeth Garbon, yn ymwneud yn y bôn ag ymgysylltu a darparu arbenigedd, gan dargedu cyngor a rhaglenni. Mewn gwirionedd, mae cyfran sylweddol o'r ymyriadau a ddisgrifir yn y Cynllun Cyflawni yn ymwneud ag ymgysylltu a bwriad i hwyluso newid mewn ymddygiad.

Canolbwynt ein gweithgarwch newid ymddygiad penodol, yn wahanol i weithgarwch sy'n rhan o raglenni, yw darparu'r dystiolaeth o ymchwil ac arferion da, a hyrwyddo a hwyluso'r broses o feithrin gallu i gynllunio a darparu ymyriadau effeithiol. Bydd angen darparu amrywiaeth arbenigol o wybodaeth, cymorth a gwasanaethau i gefnogi'r gwaith o feithrin gallu er mwyn helpu'r broses o symud tuag at ffordd o fyw carbon is sy'n fwy cynaliadwy. Bydd y cymorth hwnnw ar gael i ymarferwyr ym mhob maes llywodraeth genedlaethol a lleol, busnes a'r trydydd sector.

Ein nod yw sefydlu modelau ymyrryd effeithiol i ymdrin ag ymddygiad penodol neu sawl math o ymddygiad, a sicrhau bod y modelau hyn ar gael ledled Cymru i ranbarthau, sefydliadau neu gymunedau eu rhoi ar waith. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddatblygu a threialu rhaglenni, ar y cyd â mentrau presennol.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod cymorth ar gael i hwyluso'r broses gyflawni hon drwy ddarparu cyngor, mynediad i adnoddau a rhywfaint o gyllid.

Rydym wedi caffael contract fframwaith ar gyfer gwasanaethau i ategu rhaglenni o'r fath. Mae'r contract yn rhoi cymorth i gynllunio, cyflawni a gwerthuso ymyriadau sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo newid ymddygiad. Gan fod y diffiniad ehangach o egwyddorion cynaliadwyedd yn sail i'r fframwaith, bydd ar gael i'w ddefnyddio mewn amrywiaeth eang o feysydd eraill, megis iechyd, trafnidiaeth a datblygu cymunedol, a gellir ei ddefnyddio i

ddatblygu rhaglenni trawsbynciol sy'n cyflawni nifer o nodau polisi megis gwella iechyd a lles neu hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, yn ogystal â lleihau allyriadau ac ymaddasu.

Bydd y contract ar gael ar ddechrau 2011, a bydd yn agored i bob Adran Llywodraeth Cynulliad Cymru, pob corff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill a rhai grwpiau'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol.

Rydym hefyd yn datblygu cynllun grant a fydd yn darparu arian cyfatebol ar gyfer ymyriadau newid ymddygiad, a chaiff ei gefnogi gan swyddog datblygu ag arbenigedd yn y maes hwn.  Ar ôl ymarfer caffael, caiff hyn ei ddarparu drwy raglen Amgylchedd Cymru, sy'n lleihau'r gost weinyddol, ac sy'n golygu y gellir rhannu'r technegau a'r dysgu rhwng pob rhan o raglen Amgylchedd Cymru hefyd.

**Goblygiadau Ariannol:** Y buddsoddiad arfaethedig mewn newid ymddygiad yw £4.96 miliwn dros dair blynedd (2010/11 - 2012/13) a darperir ar ei gyfer mewn cynlluniau cyllidebau presennol.

**Prif Argymhelliad 7**

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu un corff penodol ar gyfer pob gwybodaeth a chyngor am leihau allyriadau carbon gan bob sector. Y sefydliad newydd hwn fyddai'r unig bwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau a chyngor a chymorth i gael grantiau a chontractwyr a dylai gyflawni swyddogaeth ragweithiol i sicrhau bod pob maes a sector yng Nghymru yn mynd ati i leihau allyriadau carbon.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r egwyddor sy'n sail i'r argymhelliad hwn y dylem sicrhau bod grwpiau neu gynulleidfaoedd gwahanol yn gallu cael cyngor a chymorth effeithiol o ansawdd uchel sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion. Rydym yn gwrthod yr argymhelliad hwn am nad un corff penodol yw'r dull mwyaf effeithiol o gyflawni'r amcan hwn ac, o gofio'r ffordd y mae cyfrifoldebau wedi'u rhannu ar hyn o bryd ar gyfer cyllido cyrff allweddol yng Nghymru, byddai'n arwain at ddyblygu sylweddol o ran gwasanaethau sy'n cael cyllid craidd gan Lywodraeth y DU, ac ni ellir cyfiawnhau bod hynny'n ddefnydd costeffeithiol o arian. Hefyd, yn ogystal â darparu gwybodaeth a chyngor, rydym hefyd yn canolbwyntio ar ddarparu'r cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen i hwyluso ymgysylltu effeithiol ac i hyrwyddo newid ymddygiad.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi nifer o sefydliadau neu raglenni i roi cyngor ac, yn llawer pwysicach, gymorth i helpu sefydliadau ac unigolion yng Nghymru i leihau eu hôl troed carbon. Ymhlith y sefydliadau allweddol mae'r canlynol:

- Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn rhoi gwybodaeth am leihau allyriadau carbon i unigolion a chartrefi, gan gynnwys gwybodaeth bersonol. Darperir yr arian craidd ar gyfer y gwasanaeth hwn gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu nifer o raglenni penodol i wella'r cymorth sydd ar gael yng Nghymru mewn meysydd â blaenoriaeth: mae hyn yn cynnwys cyngor a chymorth ym maes trafnidiaeth defnyddwyr i awdurdodau lleol a Chymdeithasau Tai.
- Enillodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni y contract i reoli'r rhaglen ynni adnewyddadwy cymunedol, Ynni'r Fro. Mae cymorth swyddog datblygu yn elfen allweddol o'r rhaglen ac fe'i caffaelwyd drwy gontractau rhanbarthol, sydd wedi sicrhau rhwydwaith arbenigol yn seiliedig ar amrywiaeth o bartneriaid cyflawni gan gynnwys grwpiau cymunedol.
- Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn rhoi gwybodaeth a chymorth am leihau allyriadau carbon i fusnesau a'r sector cyhoeddus. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi cyllid craidd i weithgarwch allweddol yng Nghymru ac mae rhaglenni technoleg y DU yn ychwanegu at y cymorth hwnnw.
- Mae Salix, sy'n tarddu o'r Ymddiriedolaeth Garbon, yn cynnig benthyciadau buddsoddi i arbed i'r sector cyhoeddus, wedi'u hariannu gan Lywodraeth y Cynulliad ac elw ar daliadau benthyciadau.

- Mae Cynnal Cymru yn rhoi gwybodaeth am leihau carbon yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy ehangach i unigolion, sefydliadau a chymunedau drwy ei wefan, cylchlythyr, digwyddiadau a mentrau eraill. Mae hyn yn cynnwys: gwaith gyda sectorau penodol, er enghraifft digwyddiadau poblogaidd iawn yn ddiweddar gyda'r sector mentrau cymdeithasol; digwyddiadau hyfforddi a gyflwynodd arbenigedd rhyngwladol ar ddulliau newid ymddygiad effeithiol i bobl yng Nghymru; a'r Rhestr Werdd, sy'n dathlu arweinwyr ym maes datblygu cynaliadwy ehangach o bob cefndir.
- Mae Rhwydwaith Gweithredu Cymunedol Llywodraeth y Cynulliad dros Newid Hinsawdd yn galluogi grwpiau cymunedol i rwydweithio ac mae wedi darparu cymorth penodol gan gynnwys hyfforddiant, cymorth gyda chynlluniau gweithredu a siaradwyr ac astudiaethau achos llawn ysbrydoliaeth, sydd wedi'u cynllunio i gyflawni'r blaenoriaethau lleol. Mae cysylltiadau a feithrinwyd yn y digwyddiadau hyn wedi arwain at ddatblygu nifer o brosiectau a mentrau newydd yn ogystal ag atgyfnerthu gweithgarwch presennol.
- Caiff y Prosiect Braenaru newydd, a fydd yn profi chwe model gwahanol ar gyfer gweithredu cymunedol i leihau eu hôl troed carbon, wrthi'n cael ei sefydlu yn dilyn ymarfer caffael. Caiff y prosiectau eu cefnogi gan rwydwaith o weithwyr datblygu sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol.
- Mae Busnes yn y Gymuned yn rhoi gwybodaeth a chymorth am gamau lleihau carbon i fusnesau, gan ganolbwyntio ar rwydweithio a chymorth cyfoedion.
- Mae gwefan Llywodraeth y Cynulliad www.cymruoltroedcarbon.com yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth yn ymwneud â lleihau ôl troed carbon unigolion, busnesau a sefydliadau.

Yn ogystal â chefnogi darpariaeth graidd i bob cynulleidfa, gan adeiladu ar sianelau presennol lle y maent yn bodoli, mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn annog darpariaeth gan y sector preifat a darpariaeth gymunedol drwy gynnig cyfleoedd drwy gaffael. Rydym hefyd yn cefnogi ffynonellau cyngor a chymorth ar lawr gwlad drwy rwydweithio gwell a sicrhau bod cymorth ar gael sy'n galluogi'r sefydliadau hynny i wella eu cyrhaeddiad ac ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei gynnig.

Rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig gwella'r cysylltiadau rhwng y dulliau gwahanol hyn ac rydym yn datblygu cronfa ar-lein o adnoddau a chymorth fel rhan o'r broses o gyflawni'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd, a bydd hyn yn cynnwys cyfeiriadau at yr holl adnoddau a chymorth sydd ar gael ar hyn o bryd.

Rydym hefyd wedi hyrwyddo cydweithredu a chydgysylltu gwell rhwng y sefydliadau a noddir gan y Llywodraeth. Er enghraifft, mae'r Ymddiriedolaeth Garbon a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn cydweithio i roi cymorth i fusnesau a sefydliadau'r sector cyhoeddus, gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon yn arwain mewn perthynas â'r ystad a'r seilwaith, a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn arwain mewn perthynas â'r cyngor a'r cymorth i staff, fel cyflogeion ac yn y cartref ac rydym yn disgwyl i'r ddau sefydliad fynd ymhellach wrth gydweithio

a dod o hyd i effeithlonrwydd a synergeddau fel rhan o'r broses cynllunio busnes ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim - gwrthodir yr argymhelliad.

**Prif Argymhelliad 8**

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ddarparu cyllid ar gyfer un corff penodol am o leiaf bum mlynedd gan chwilio am ffrydiau ariannu a chyfleoedd nawdd eraill ar ei gyfer hefyd.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r egwyddor sy'n sail i'r argymhelliad hwn y dylem barhau i fuddsoddi mewn sicrhau bod grwpiau neu gynulleidfaoedd gwahanol yn gallu cael cyngor a chymorth effeithiol o ansawdd uchel sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion. Rydym yn gwrthod yr argymhelliad hwn oherwydd, fel yr amlinellwyd yn ein hymateb i argymhelliad 7, nid ydym o'r farn mai un corff penodol yw'r dull mwyaf effeithiol o gyflawni'r amcan hwnnw.

Bydd y gyllideb ddrafft yn ein galluogi i barhau i fuddsoddi yn y rhaglenni a amlinellwyd yn yr ymateb i argymhelliad 7 drwy gydol cyfnod y gyllideb a rhagdybir y bydd buddsoddiad parhaus yn y maes hwn yn y darpariaethau yng Nghynllun Cyflawni'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim yn sgîl gweithredu'r argymhelliad, sy'n cael ei wrthod.

**Prif Argymhelliad 9**

Dylai pob un o Weinidogion Llywodraeth Cymru ddatgan yn glir ei swyddogaethau o ran lleihau allyriadau carbon a sut mae'n bwriadu cyflawni'r targedau a bennwyd yn ei bortffolio.

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Cynllun Llywodraeth gyfan yw Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig ar gyfer Lleihau Allyriadau.

Wrth ddatblygu'r Strategaeth, mae pob un o Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno ar y targedau a'r camau gweithredu cysylltiedig ar gyfer cyflawni yn ei bortffolio. Caiff ein targedau i leihau allyriadau eu hadolygu a'u diwygio'n flynyddol a bydd angen cytundeb yr holl Weinidogion perthnasol.

Bydd Pwyllgor y Cabinet ar Ddyfodol Cynaliadwy yn goruchwylio'r broses o gyflawni'r Strategaeth a'r cyfraniad y gall pob un o'r polisïau a'r rhaglenni ei wneud i'w chyflawni. Mae'n ofynnol i bob Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed i gynnwys datblygu cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd mewn gwaith corfforaethol a'r broses o roi polisi ar waith. Mae Gweinidogion wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim - mae cyflwyno adroddiad ar gynnydd yn rhan o waith craidd y broses o gyflawni'r Strategaeth ac mae costau yn ymwneud yn bennaf ag amser staff.

**Prif Argymhelliad 10**

Dylai pob polisi a chynllun newydd a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru gynnwys datganiad clir yn nodi sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â lleihau allyriadau carbon.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Derbyniaf yr egwyddorion sy'n sail i'r argymhelliad hwn, sef y dylem fod yn ystyried effaith polisïau ar newid yn yr hinsawdd, wrth i'r polisïau hynny gael eu datblygu.

Ar hyn o bryd, defnyddir y broses Porth i Bolisïau i brofi a yw ein polisïau a'n strategaethau sy'n cael eu datblygu yn seiliedig ar ddatblygu cynaliadwy ac mae'n cynnwys cwestiynau penodol sy'n ymdrin â materion o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu pecyn cymorth a fydd yn galluogi adrannau i gynnal Arfarniad Carbon er mwyn ystyried goblygiadau eu polisïau a'u cynigion ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr. Caiff hyn ei gynnwys yn y prosesau gwell i ategu'r broses o ddatblygu polisïau yn effeithiol.

Bydd y math o asesiad a'r manylion sy'n briodol yn amrywio yn unol ag arwyddocâd y polisi neu'r rhaglen ar gyfer allyriadau. Rydym am ganolbwyntio ar y meysydd lle y gwneir gwahaniaeth.

**Goblygiadau Ariannol:** Mae'r goblygiadau ariannol yn ymwneud yn bennaf ag amser staff i ddatblygu'r pecyn cymorth ond mae'r gwaith hwn yn rhan graidd o rôl y tîm.

**Prif Argymhelliad 11**

Dylid ei gwneud yn ofynnol bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn nodi sut mae wedi prif-ffrydio mesurau i leihau allyriadau carbon drwy ei systemau datblygu polisi a darparu gwasanaethau.

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog sefydliadau i gyflwyno adroddiad ar y ffordd y maent yn cymryd camau i leihau allyriadau ac ymaddasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Rydym yn cydnabod, pan fydd sefydliadau yn cyflwyno adroddiad cyhoeddus ar eu hallyriadau, y gall hyn annog gwelliant a bod angen adroddiadau o'r fath hefyd, mewn rhai achosion, i gydymffurfio â rhwymedigaethau rheoleiddio. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau lunio adroddiadau annibynnol ar allyriadau yn effeithiol o reidrwydd ac felly ni allwn gefnogi'r rhan honno o'r argymhelliad.

Dylid cynnwys y cyfraniad y mae sefydliad yn ei wneud i leihau allyriadau mewn trefniadau adrodd presennol a bydd gweithredu yn y ffordd honno yn helpu i ymgorffori camau gweithredu ar newid yn yr hinsawdd fel rhan o waith craidd yn hytrach na gwaith ychwanegol.

Yn ogystal, mae llawer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus eisoes yn cyflwyno adroddiad ar eu perfformiad mewn perthynas ag allyriadau ac mae Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon yn cyflwyno gofynion adrodd gorfodol fel rhan o'r broses o gydymffurfio â'r cynllun.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gweithio i ddatblygu ôl troed carbon mwy cadarn ar gyfer y sector cyhoeddus. Bydd y gwaith hwn yn defnyddio'r data manwl a gaiff ei gasglu fel rhan o gyfranogiad sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon ac ychwanegir ato mewn meysydd lle y mae angen mwy o fanylion. Gobeithir hefyd y gellir defnyddio adolygiad ac ymgynghoriad ar ddangosyddion perfformiad Awdurdodau Lleol i wella'r data sydd ar gael ar allyriadau awdurdodau lleol.

**Goblygiadau Ariannol:** Mae'r goblygiadau ariannol yn ymwneud yn bennaf ag amser staff i ddatblygu data ôl troed y sector cyhoeddus ond mae'r gwaith hwn yn rhan graidd o rôl y tîm.

**Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Ymchwiliad i Leihau Carbon yng Nghymru – Diweddariad ar y Prif Argymhellion o Adroddiadau blaenorol y Pwyllgor**

**Adroddiad ar Leihau Allyriadau Carbon Preswyl yng Nghymru (cyhoeddwyd Mawrth 2008. Ymatebwyd iddo gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**

| Prif Argymhelliad | Ymateb | Diweddariad |
|---|---|---|
| 1.<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, trwy Ddatganiad Polisi Cynllunio Interim gan y Gweinidog, ei gwneud yn ofynnol bod datblygiadau o fwy na 5 annedd, a phob datblygiad masnachol, yn cynhyrchu o leiaf 10 y cant o'u gofynion ynni trwy ynni adnewyddadwy ar y safle neu o ffynonellau lleol sydd wedi'u datganoli. | **Ymateb : Derbyn mewn egwyddor, yn ddarostyngedig i ddadansoddiad trwyadl o'r costau a'r buddion.**<br><br>Mae'r adolygiad o'r polisi a'r canllawiau cynllunio yn parhau, yn dilyn ein hymgynghoriad ar gynllunio ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys ystyried a ddylid gwneud cynhyrchu isafswm o ynni adnewyddadwy (gan gynnwys ynni o ffynonellau carbon isel), a/neu isafswm lleihad mewn allyriadau carbon, yn ofynnol mewn adeiladau/datblygiadau newydd trwy gyfrwng y system gynllunio.<br><br>Gallaf sicrhau'r Pwyllgor bod y dadleuon dros gefnogi o leiaf math o 'reol Merton' yng Nghymru, ac ymgyrraedd at rywbeth sydd hyd yn oed yn fwy effeithiol na Merton, trwy, er enghraifft, fynnu lleiafswm gostyngiad mewn allyriadau carbon neu well perfformiad o ran effeithlonrwydd ynni, yn cael eu hystyried. Bydd yr argymhellion uchod yn ogystal â chanfyddiadau ehangach yr adroddiad yn cael sylw priodol wrth | Mae'r polisi Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy (Adran 4.11, Polisi Cynllunio Cymru) yn disgwyl i'r adeiladu hynny sy'n ddarostyngedig i'r polisi wella'u hallyriadau carbon 31% goruwch safonau 2006 (Rheoliadau Adeiladu. O 1af Medi 2010 mae hyn yn berthnasol i bob tŷ newydd yng Nghymru.<br><br>Yr ydym yn parhau i gefnogi dull graddol o leihau allyriadau carbon cartrefi newydd drwy gymhwyso egwyddorion yr hierarchaeth ynni. Ni ddylid ymgorffori technolegau ynni adnewyddadwy ond yn dilyn ymdrech gynhwysfawr i leihau'r galw am ynni a chynyddu effeithlonrwydd ynni wrth ddylunio adeiladau newydd. Mae ein polisi, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2009 yn cadarnhau'r dull |
| 2.<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, trwy Ddatganiad Polisi Cynllunio Interim gan y Gweinidog, ei gwneud yn ofynnol bod datblygiadau o lai na 5 annedd yn lleihau'r allyriadau $CO_2$ a ragwelir 25 y cant o leiaf, ar sail y rheoliadau adeiladu cyfredol, trwy wneud gwelliannau i berfformiad ynni'r adeiladau, a/neu trwy gyflenwad gwresogi, oeri ac ynni effeithlon. | | |

| | | |
|---|---|---|
| | gyrraedd penderfyniad.<br><br>Hoffwn ofyn i'r Pwyllgor, fodd bynnag, ystyried y posibilrwydd bod gwrthdrawiad rhwng Argymhellion 1 a 2 . Gallai'r gostyngiad posibl mewn allyriadau a gynrychiolir gan Argymhelliad 2 fod yn fwy na'r gostyngiad o ganlyniad i Argymhelliad 1, oherwydd nad yw'n dilyn o anghenraid y bydd mynnu cael 10% o ynni adnewyddadwy yn arwain yn awtomatig at ostyngiad o 25% o leiaf yn yr allyriadau. Dylem fod yn annog dull o ymateb fesul gris i'r hierarchaeth ynni, ac aros cyn cynnwys technolegau ynni adnewyddadwy hyd nes byddwn wedi gweithredu'n gydunol i leihau'r galw am ynni a gwella effeithlonrwydd ynni. Gofynnaf i'r Pwyllgor nodi hefyd y mesurir yr elfen effeithlonrwydd ynni o dan y Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy yn nhermau gwelliannau canran mewn effeithlonrwydd ynni gyferbyn â Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu, a bod gwelliant o 25% yn cyfateb i lefel 3 yn y Cod.  Mae pwyntiau ar gael hefyd yn y Cod ar gyfer cynnwys technolegau ynni carbon isel neu ddi-garbon<br><br>**Goblygiadau Ariannol;** mae'n bosibl yr achosid costau ychwanegol i ddatblygwyr a chynllunwyr pe derbynnid ac y gweithredid yr argymhellion hyn trwy'r system gynllunio, | gweithredu hwn, ac yn cyflwyno mwy o arbedion o ran carbon pe byddid yn cwrdd â 10% yn unig o'r galw am ynni rheoledig drwy ymgorffori technoleg ynni adnewyddadwy ar y safle.<br><br>Nid oes unrhyw rym penodol yn y ddeddfwriaeth gynllunio i greu polisi cynllunio na chanllawiau. Y grym cyfreithiol perthnasol yw Adran 60 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Gall polisïau cynllunio cenedlaethol fod yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau unigol gan awdurdodau cynllunio lleol a rhoddir ystyriaeth iddynt gan Weinidogion Cymru ac Arolygwyr Cynllunio wrth benderfynu ceisiadau ac apeliadau cynllunio a elwir i mewn. |

| | | |
|---|---|---|
| | a bydd angen ystyried y rheini cyn cyrraedd penderfyniad. | |
| 3.<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Rheoliadau Adeiladu'n cael eu datganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru fel mater o frys. | **Ymateb : Derbyn**<br><br>Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo yn *Cymru'n Un* i annog datganoli, ac y mae'n obeithiol y bydd trafodaethau â Llywodraeth y DU yn cyrraedd penderfyniad boddhaol yn fuan.<br><br>**Goblygiadau Ariannol**: Bydd y costau adrannol ychwanegol, a achosir trwy annog datganoli a sicrhau'r sgiliau a'r galluoedd angenrheidiol i weinyddu Rheoliadau Adeiladu datganoledig, yn cael ei diwallu o'r cyllidebau presennol. | Bydd Rheoliadau Adeiladu'n cael eu datganoli ar 31ain Rhagfyr 2011.<br><br>Mae gwaith ymgysylltu a lledaenu gwybodaeth ar droed i gefnogi'r symudiad tuag at dai newydd carbon isel/sero ac y mae gwaith cwmpasu ar gyfer y newidiadau cyntaf i reoliadau adeiladu yn ymwneud ag ynni wedi dechrau gyda'r bwriad o ddwyn ymlaen gynigion ymgynghori yn 2012. |
| 4.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mabwysiadu'r Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy ac y dylai ddod i rym ar unwaith. Rydym hefyd yn argymell, pan ddatganolir y Rheoliadau Adeiladu, mai'r rhai y dylid eu hadolygu gyntaf yw'r rhai a fyddai'n | **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor (yn ddarostyngedig i gytundeb y cabinet)**<br><br>Rwyf eisoes wedi cyhoeddi y mabwysiedir y Cod yn lle Ecogartrefi BREEAM, ac y cymhwysir y Cod i'r holl dai a gyllidir gan, neu a godir ar dir a waredwyd gan, Lywodraeth y Cynulliad. Rwyf hefyd wedi cadarnhau yn ddiweddar y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud Lefel 3 o'r Cod, o leiaf, yn ofynnol ar gyfer tai cymdeithasol, ac yn symud | Yn dilyn gwerthusiad o opsiynau cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ym Mehefin 2010 y byddai'r newidiadau cyntaf i Reoliadau Adeiladu datganoledig yn anelu at gyflawni gwelliant o 55% (yn erbyn rheoliadau adeiladu 2006) ar gyfer tai newydd. |

| | | |
|---|---|---|
| galluogi gorfodi lefel uchaf y Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy. | i lefelau uwch cyn gynted ag y bo modd. Mae'r Dirprwy Weinidog dros Dai yn ymgynghori ar gynlluniau i gryfhau'r safonau datblygu ac i brif-ffrydio dulliau newydd yn raddol dros y cyfnod Grant Tai Cymdeithasol nesaf; ac y mae'n ystyried clustnodi cyfran o'r rhaglen ar gyfer cyllido adeiladu carbon-isel. Wrth symud ymlaen byddwn yn ystyried yn ofalus adroddiad y Grŵp Adolygu Tai Fforddiadwy, a ddisgwylir tua diwedd Mai/ dechrau Mehefin.<br>Rydym yn ceisio datganoli'r Rheoliadau Adeiladu er mwyn codi'r safonau effeithlonrwydd ynni i'r lefel ddi-garbon. Bydd agweddau eraill ar y Cod, eu perthynas â'n hamcanion cynaliadwyedd ehangach, a'u goblygiadau i'r Rheoliadau Adeiladu, hefyd yn cael eu hystyried, yn rhan o raglen o waith pellach a ddatblygir yn ystod tymor presennol y Cynulliad.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – dim o ganlyniad i fabwysiadu'r Cod yn lle'r polisi blaenorol (h.y. Ecogartrefi BREEAM) ar gyfer graddio cynaliadwyedd tai newydd a gyllidir gan, neu a godir ar dir a waredwyd gan, Lywodraeth y Cynulliad. Gallai pennu lefelau Cod sy'n uwch na'r gofynion cyfreithiol cyffredinol a pholisi cyfredol Llywodraeth y Cynulliad effeithio ar werth gwarediadau tir, a | |

| | | |
|---|---|---|
| | bydd rhaid ystyried hynny, yn rhan o'r broses cynllunio busnes a chyllidebu. Bydd y costau achosir i ddiwydiant ac i ddefnyddwyr oherwydd safonau uwch yn y Rheoliadau Adeiladu yn cael eu hystyried, yn rhan o'r broses o arfarnu'r newidiadau arfaethedig. | |
| 5.<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyllido rhaglen ôl-osod ar gyfer yr holl gartrefi presennol sy'n anodd eu gwresogi, i sicrhau eu bod yn cyrraedd un o'r lefelau cytunedig yn y Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy. | **Ymateb: Gwrthod.**<br><br>Rwy'n cefnogi nod gwaelodol yr argymhelliad, sef hyrwyddo gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn y stoc bresennol, yn enwedig cartrefi sy'n anodd i'w gwresogi.<br>Fodd bynnag, rhaid cadw cydbwysedd rhwng deiliaid tai sydd â'r gallu i dalu a'r rhai sydd, i bob pwrpas, mewn tlodi tanwydd. Rhaid cydnabod hefyd bod lliniaru tlodi tanwydd yn gyfrifoldeb a rennir rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth y Cynulliad a'r cyflenwyr ynni. yn ychwanegol, gan na chynlluniwyd y Cod fel safon ar gyfer y stoc tai presennol, byddai'n anodd 'darllen ar draws' yn uniongyrchol.<br>Mae dwy raglen sylweddol yng Nghymru sydd eisoes yn darparu cyllid yn benodol ar gyfer ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn yr eiddo presennol.<br>Mae Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES) Llywodraeth y Cynulliad yn darparu mesurau gwresogi ac inswleiddio i aelwydydd cymwys. O dan y Targed | Mae'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd yn tynnu sylw at swyddogaeth allweddol gwella perfformiad ynni'r stoc dai presennol o ran cwrdd â'n targedau newid yn yr hinsawdd ac mae'r Strategaeth Tlodi Tanwydd yn tynnu sylw at ei swyddogaeth allweddol o ran lleihau tlodi tanwydd.<br><br>Mae'r ddwy Strategaeth yn cadarnhau y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn canolbwyntio'i chyllid yn y maes hwn lle y bydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf a lle nad yw ffynonellau eraill o arian ar gael.<br><br>Mae hyn yn golygu sicrhau y gall ein rhaglenni helpu cartrefi sy'n anodd eu trin ac oddi ar y grid nwy, ac nad ydynt yn hanesyddol, wedi cael budd o'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES) oherwydd bod lefel y |

| | | |
|---|---|---|
| | Lleihau Allyriadau Carbon (sef yr 'Ymrwymiad Effeithlonrwydd Ynni' gynt) mae cyflenwyr ynni hefyd yn darparu mesurau arbed carbon yn ddi-dâl neu ar ddisgownt i'w cwsmeriaid. Cyflawnir mesurau effeithlonrwydd ynni hefyd wrth fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) Llywodraeth y Cynulliad o dan gynlluniau ardaloedd adnewyddu a rhaglenni eraill sy'n adnewyddu tai.<br>O dan *Cymru'n Un* mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddatblygu Cynllun Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni Cenedlaethol. Bydd y Cynllun yn edrych ar ein Strategaeth Tlodi Ynni, ar rôl yr HEES ac yn ystyried partneriaethau posibl â chyflenwyr ynni er mwyn cyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni mewn ffordd integredig. Goleuir y cynllun mewn perthynas â'r stoc tai bresennol gan y gwaith y gofynnais i'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy ei wneud, ar y ffordd yr dylai'r amgylchedd adeiledig gyfrannu at darged Llywodraeth y Cynulliad o 3% o ostyngiad blynyddol yn yr allyriadau carbon.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – sylweddol. Pe derbynnid a gweithredid yr argymhelliad hwn, ni ellid darparu ar gyfer y goblygiadau ariannol allan o gyllidebau adrannol presennol Llywodraeth y Cynulliad. | buddsoddiad angenrheidiol fesul tŷ yn mynd â hwy dros yr uchafswm grant.<br><br>Fel y nodir yn y Strategaeth Tlodi Tanwydd, mae'r Rhaglen Tlodi Tanwydd Cymru Gyfan a fydd yn disodli HEES, wedi'i llunio er mwyn gallu cefnogi cartrefi sy'n anodd eu trin. Bydd pecynnau gwelliant yn seiliedig ar 'asesiad tŷ cyfan' a bydd ystod gyflawn o fesurau ar gael.<br><br>Gweithredir mesurau effeithlonrwydd ynni wrth gwrdd â Safon Ansawdd Tai Cymru (WQHS) dan *arbed* a chynlluniau ardaloedd adnewyddu a rhaglenni eraill sy'n anelu at ailwampio adeiladau. Mae *Arbed* wedi cyflwyno'r model 'asesiad tŷ cyfan' ar gyfer gwella perfformiad ynni ar sail ardal ac y mae'n darparu gwir fanteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. |

| | | |
|---|---|---|
| 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd ati'n ddiwyd i hyrwyddo'r rhaglen Adeiladau Carbon Isel yng Nghymru ac yn darparu grantiau ychwanegol ar gyfer cynlluniau microgynhyrchu mewn tai presennol. | **Ymateb: Derbyn yn rhannol.**<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn hyrwyddo'r Rhaglen Adeiladu Carbon Isel, trwy ei chyfryngau cynghori a gwybodaeth ei hunan, trwy gyllido gwefan porthol Arbed Ynni Cymru sy'n gweithredu fel mynegbost i'r rhaglen, a thrwy gefnogi'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni sydd â chysylltiadau â'r Rhaglen ac yn darparu gwybodaeth a chyngor ynghylch technolegau microgynhyrchu.<br><br>Ein bwriad yw manteisio'n llawn ar y Cyllid Cydgyfeirio newydd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a datblygu'r diwydiant microgynhyrchu yng Nghymru.<br><br>Mewn perthynas â darparu grantiau newydd gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer cynlluniau microgynhyrchu mewn tai sy'n bod eisoes, blaenoriaeth gyntaf cyllid grant Llywodraeth y Cynulliad, o anghenraid, fydd gwella effeithlonrwydd ynni'r stoc bresennol. Yr wyf, fodd bynnag, yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnig cymhellion ychwanegol ar gyfer microgynhyrchu mewn eiddo incwm-isel sydd wedi cyrraedd ei botensial llawn o safbwynt effeithlonrwydd ynni.<br><br>**Goblygiadau Ariannol**: | Mae'r Rhaglen Adeiladau Carbon Isel bellach wedi cau. Fe'i disodlir gan 'arian yn ôl am ynni glan' drwy'r Tariff Bwydo i Mewn (ar gael ers mis Ebrill 2010) a'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy (y disgwylir iddynt fod ar gael o Fehefin 2013).Yr ydym yn gweithio gyda phartneriaid ar draws Cymru i hyrwyddo'n frwd y manteision allai ddeilio i brosiectau ynni adnewyddadwy o'r arian yn ôl am ynni glân.<br><br>Yr ydym wedi sefydlu'r rhaglen Cefnogi MCS sy'n cynorthwyo busnesau i gael achrediad dan y cynllun achredu MCS a chael buddion eraill o ran rhwydweithio a hyfforddiant.<br><br>Y rhaglen *arbed* yw rhaglen buddsoddi strategol Cymru mewn perfformiad ynni. Fe'i sefydlwyd yn 2009 i ddylanwadu ar a chydlynu buddsoddiad ym mherfformiad ynni adeiladau Cymru, yn enwedig cartrefi, ac y mae *arbed* yn drawsbynciol. Fe'i lluniwyd i uchafu budd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y |

| | | |
|---|---|---|
| | achosid goblygiadau ariannol i Lywodraeth y Cynulliad pe baem yn cynnig grantiau ychwanegol, na ellid eu darparu allan o'r cyllidebau adrannol presennol. | buddsoddi hwn, a chynorthwyo i gyflawni ymrwymiadau *Cymru'n Un* i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, cael gwared â thlodi tanwydd a rhoi hwb i ddatblygu economaidd ac adfywio yng Nghymru.<br><br>Mae Cam 1 *Arbed* wedi'i ariannu'n bennaf o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol (SCIF).Mae'n bortffolio o gynlluniau effeithlonrwydd ynni cartref ac ynni adnewyddadwy seiliedig ar ardal.Mae *Arbed* yn ariannu cynlluniau mewn ardaloedd a nodweddir gan grynodiad o aelwydydd incwm isel a chartrefi anodd eu trin.<br><br>Bwriedir, unwaith y bydd y portffolio presennol wedi'i gyflawni, y dylid sicrhau cyllid ERDF yr UE drwy WEFO i'w ddefnyddio i ariannu portffolio newydd o gynlluniau *arbed* yn dechrau ym mis Ebrill 2011. |

**Adroddiad ar Leihau Allyriadau Carbon gan Drafnidiaeth (cyhoeddwyd Mawrth 2008). Ymatebwyd iddo gan y Prif Weinidog**

| Prif Argymhelliad | Ymateb | Diweddariad |
|---|---|---|
| 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi arweiniad llawer cryfach drwy sicrhau bod lleihau carbon yn ganolog i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a thrwy gynyddu'r arian ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy o tua 50 y cant i tua 70 y cant o'r gyllideb ar gyfer trafnidiaeth, fel yn yr Alban. | **Ymateb: Derbyn yn rhannol**.<br><br>Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno'n llwyr â'r Pwyllgor y dylai lleihau carbon fod yn ganolog i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Adlewyrchir hyn yn fersiwn terfynol Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a gyhoeddais yn gynharach y mis hwn. Mae'r Strategaeth yn gosod fframwaith ar gyfer rhoi trafnidiaeth ar lwybr lleihau carbon gan sicrhau yr un pryd fod y rhwydwaith yn gallu parhau i gynnal twf economaidd a hybu cynhwysiant cymdeithasol.<br><br>O ran cyllid, fel y dywedais wrth y Pwyllgor, mae'r gyllideb drafnidiaeth ar hyn o bryd wedi'i rhannu'n gyfartal rhwng trafnidiaeth gyhoeddus a ffyrdd. Rydym eisoes yn gwario mwy na 70 y cant o'r gyllideb refeniw ar drafnidiaeth gyhoeddus, ond bydd rhaniad y cyllid cyfalaf yn dibynnu ar y gymysgfa o gynlluniau sydd ar waith.<br><br>Rwyf wrthi'n adolygu balans gwariant o fewn y gyllideb drafnidiaeth yn | Mae'r cyllidebau diwygiedig ar gyfer 2011/12 yn parhau i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i deithio a chludiant cyhoeddus cynaliadwy, gyda'r gweithgareddau hyn yn derbyn y rhan fwyaf o'r buddsoddiad.<br><br>Hyd yn oed gyda thoriadau i'r gyllideb, mae cyfran y cyfanswm gwariant cyffredinol ar deithio cynaliadwy wedi codi o 50% yn 2009/10 i 61% yn 2011/12. |

| | | |
|---|---|---|
| | unol â'r blaenoriaethau a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'm nodau ar gyfer lleihau carbon.<br><br>**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol – mae darpariaeth yn y cyllidebau cyfredol. | |
| **2.**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys amcanion penodol a mesuradwy i leihau allyriadau carbon ac y rhoddir digon o arian i'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol i'w galluogi i gyflawni'r amcanion hyn. | **Ymateb: Derbyn**.<br><br>Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys ystod o ganlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n seiliedig ar y rhai a amlinellwyd yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae un o'r canlyniadau amgylcheddol yn ymwneud â lleihau effaith trafnidiaeth ar allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae targed penodol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar gyfer allyriadau carbon trafnidiaeth, yn unol ag ymrwymiad Cymru'n Un. Pan fydd y targed wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo, bydd y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ei adlewyrchu.<br><br>Bydd yn rhaid i | Cyflwynwyd y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol gan y pedwar Consortiwm ym Medi 2009. Mae'r cynlluniau'n cynnwys polisïau a chynigion sy'n gyson â chyflawni deilliannau a blaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru gan gynnwys y deilliant yn ymwneud â lleihad yn effeithiau trafnidiaeth ar allyriadau nwyon tŷ gwydr. Cymeradwywyd y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ym mis Rhagfyr 2009.<br><br>Cyhoeddwyd y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ym Mawrth 2010. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn cydnabod mai'r nod tymor hir yw system drafnidiaeth wedi'i datgarboneiddio i Gymru, ond yn y tymor byr bod angen darparu dewisiadau amgen realistig mwy cynaliadwy na'r car preifat. Mae'r cynllun yn nodi ymyriadau i wella |

| | | |
|---|---|---|
| | Lywodraeth Cynulliad Cymru gymeradwyo canlyniadau a thargedau'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â lleihau carbon, fel rhan o'r broses o gymeradwyo pob Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Caiff y consortia dipyn o ryddid i ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael fel y mynnant i gyflawni canlyniadau a thargedau'r Cynllun. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn monitro cynnydd yn flynyddol.<br><br>**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol – mae darpariaeth yn y cyllidebau cyfredol. | cerdded a beicio, ac integreiddio gwahanol ddulliau, i sefydlu canolfannau teithio cynaliadwy ar draws Cymru, i wella gorsafoedd rheilffordd a chanfod cyfleoedd i ddod â rheilffyrdd nas defnyddir mwyach yn ôl i'r rhwydwaith trafnidiaeth.<br><br>Dyrannwyd cyllid o £22m yn 2010/11 i gyflwyno'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, ac o'r swm hwn dyrannwyd 68% ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth integredig a 23% ar gyfer mesurau i wella cerdded a beicio. Caiff cynnydd ei fonitro gan Lywodraeth y Cynulliad yn flynyddol gyda'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol cyntaf i'w gyflwyno yn haf 2011.<br><br>Yn ddiweddar, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd ei Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r Strategaeth yn nodi cynlluniau ar gyfer lleihau allyriadau carbon o'r sector trafnidiaeth yng Nghymru a'r cyfraniad a wneir ganddynt tuag at gyflawni'r targed blynyddol o 3%.<br><br>Byddwn yn cydweithio'n agos â'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol i fonitro cyflwyno'r Cynllun Trafnidiaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cenedlaethol ar lefel ranbarthol ac i asesu sut orau i ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael i gyflawni'r deilliannau a'r targedau a gynhwysir yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ac yn y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd. |
| 3.<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu'r defnydd o WelTAG ar frys er mwyn sicrhau mai lleihau allyriadau carbon yw'r prif amcan wrth asesu prosiectau. | **Ymateb: Derbyn yn rhannol.**<br><br>Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu cydnabyddiaeth y Pwyllgor fod yr Arweiniad ar Gynllunio ac Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) yn ddull pwysig o asesu effaith carbon prosiectau arfaethedig.<br><br>Byddaf yn adolygu arweiniad WelTAG yn rheolaidd a rhagwelaf y bydd yn cael ei ddiweddaru a'i wella bob hyn a hyn er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r targedau carbon a nodir yng nghytundeb Cymru'n Un.<br><br>**Goblygiadau ariannol:** Dim. | Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu canllawiau WelTAG. Bydd yr adolygiad yn cynnwys sicrhau ei fod yn gyson â'r targedau amgylcheddol a charbon a nodir yng nghytundeb Cymru'n Un. Caiff y canllawiau newydd eu treialu yn ystod 2011. |
| 4.<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal cynllun peilot yng Nghymru yn seiliedig ar raglen *TravelSmart* | **Ymateb: Derbyn yn rhannol.**<br><br>Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod cynlluniau fel *TravelSmart*, sy'n cynnig gwybodaeth | Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu Cydlynydd Cynllun Trafnidiaeth ym mhob un o'r pedwar Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol, sy'n hyrwyddo ac yn darparu |

| | | |
|---|---|---|
| Sustrans i asesu ei heffaith, cyn ystyried ei chyflwyno ledled Cymru. | deithio bersonoledig i deuluoedd neu unigolion, yn gallu arwain at newidiadau sylweddol yn ymddygiad teithio pobl. Mewn cydweithrediad â'r consortia trafnidiaeth rhanbarthol, rydym eisoes wedi cyflawni nifer o astudiaethau peilot ar gynlluniau teithio personoledig, er mwyn pwyso a mesur effeithiolrwydd gwahanol fethodolegau a'u cymhwysedd i wahanol grwpiau targed.<br><br>Rwy'n bwriadu adeiladu ar y profiad hwn drwy gynnwys gwybodaeth deithio bersonoledig yn fframwaith ein menter Trefi Teithio Cynaliadwy. Fy mwriad yw galluogi nifer o drefi i ddod yn esiamplau o ran teithio cynaliadwy, gyda llawer mwy o gyfleoedd i gerdded a beicio, gwell trafnidiaeth gyhoeddus, gwell gwybodaeth deithio a gwell cynllunio.<br><br>**Goblygiadau ariannol:** Bydd yr arian ar gyfer Trefi Teithio Cynaliadwy yn dod o gyllidebau cyfredol. | gwybodaeth ar deithio cynaliadwy gan gynnwys rhannu ceir a gweithio gyda chyflogwyr mawr i ddatblygu a gweithredu cynlluniau teithio, gan gynnwys cyfrannu at y cynllun teithio ar gyfer swyddfeydd newydd Llywodraeth y Cynulliad yng Nghyffordd Llandudno. I adeiladu ar y gwaith hwn ac fel rhan o'r cynllun Canolfannau Teithio Cynaliadwy, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ddiweddar wedi gosod contract ar gyfer Cynllun Teithio Personol, i'r Gweithle ac i'r Ysgol, a bydd yn gweithio gydag Awdurdodau lleol a Chonsortia Trafnidiaeth Rhanbarthol ar weithredu prosiectau cynllunio teithio. |

**Adroddiad ar Leihau Allyriadau Carbon mewn Diwydiant ac yn y Sector Cyhoeddus (cyhoeddwyd Ebrill 2009). Ymatebwyd iddo gan y Prif Weinidog**

| Prif Argymhelliad | Ymateb | Diweddariad |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| 1.<br>Dyma argymhelliad y Pwyllgor:<br><br>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru bennu targedau ar gyfer lleihau carbon yn y maes diwydiant a'r sector busnes yng Nghymru fel rhan o'i gwaith o weithredu ymrwymiad Cymru'n Un i leihau allyriadau carbon. Yn dilyn cyfnod o bum mlynedd o weithredu gwirfoddol gan y sector diwydiant a busnes yng Nghymru i gyrraedd y targedau a bennwyd ar eu cyfer, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrraedd y targedau. | **Ymateb: Gwrthod**<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwrthod yr argymhelliad hwn. Mae Cynllun Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd (EU ETS), Cytundebau Newid yn yr Hinsawdd ac, o 2010 ymlaen, yr Ymrwymiad i Leihau Carbon (CRC), yn darparu systemau sy'n seiliedig ar y farchnad i hyrwyddo'r broses o leihau allyriadau ym maes diwydiant a busnes ledled y DU. Mae cap yr EU ETS yn rhoi terfyn cyffredinol ar allyriadau o'r gweithfeydd sy'n dod o dan y cynllun, sy'n cynrychioli dros 50% o allyriadau carbon deuocsid. Yn yr un modd, unwaith y bydd y CRC yn dechrau ei gyfnod o gapio yn 2013 bydd hefyd yn cyflwyno terfyn cyffredinol ar allyriadau.<br><br>Mae dull hwn o weithredu yn caniatáu lleihau allyriadau ar y pwynt sydd leiaf costus mewn marchnad garbon sy'n gweithredu ledled y DU (ac yn wir yr UE | Mae Strategaeth Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd yn gosod targed ar gyfer allyriannau gan y sector busnes sy'n dod o fewn y targed o 3% yn 2020.<br><br>Mae'r Strategaeth yn gosod targed o ostyngiad mewn allyriadau i rhwng 10.3 ac 8.3 Mt Co2e o waelodlin o 11.24 Mt Co2e ar gyfer allyriadau a gwmpasir gan y targed o 3%.Nid oes unrhyw fwriad i wneud y targed hwn yn un statudol.<br><br>Nid yw'r sectorau Busnes a Diwydiant wedi'u gwahanu ac yn wir y mae rhannau mawr o'r sector diwydiant yn dod y tu allan i gylch gorchwyl targed Llywodraeth Cynulliad Cymru o 3%. Mae targed o 3% yn cwmpasu holl allyriadau uniongyrchol o nwyon tŷ gwydr yng Nghymru ac eithrio'r rhai o ddiwydiant trwm a chynhyrchu pŵer, a ddiffinnir yn fras fel y sefydliadau hynny a gwmpasir gan ETS yr UE.<br><br>Er, oherwydd ein bod yn cydnabod pwysigrwydd lleihau'r defnydd o drydan er mwyn gostwng allyriadau, yr ydym hefyd yn cynnwys yr allyriadau hyn yn y targed o 3% drwy eu haseinio i'r defnydd olaf o drydan.<br><br>Mae'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon – a lansiwyd ym mis Ebrill 2010 – wedi'i lunio i gymell cyrff mawr yn y sector |

| | | |
|---|---|---|
| | hefyd).<br><br>Trwy bennu targed ychwanegol i ddiwydiant a busnes, yn enwedig pe gwneid hynny'n statudol yn ôl argymhelliad y Pwyllgor, byddem yn gorfodi busnesau yng Nghymru i gyflawni gostyngiadau hyd yn oed pe bai'n fwy cost-effeithiol i leihau'r allyriadau mewn mannau eraill, a gallai cystadleurwydd fod dan fygythiad.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – Dim, oherwydd bod yr argymhelliad yn cael ei wrthod | cyhoeddus a phreifat i ymgymryd â chyfleoedd effeithlonrwydd ynni cost-effeithiol drwy ddefnyddio elfennau gyrru'n ymwneud ag enw da a chyllid:rhaid prynu lwfans ar gyfer allyriadau a bydd perfformiad cyfranogwyr yn cael ei adlewyrchu mewn Tabl Cynghrair Perfformiad. |
| 2.<br>Dyma argymhelliad y Pwyllgor:<br><br>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal asesiad o'r cyfleoedd cyflogaeth a allai gael eu creu yng Nghymru drwy leihau allyriadau carbon, a dylai hynny gynnwys gwerthusiad o'r sgiliau sydd eu hangen yn y gweithlu. Dylai'r asesiad a'r gwerthusiad lywio Strategaeth Swyddi Gwyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru. | **Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.<br><br>Bydd y Strategaeth Swyddi Gwyrdd sydd, ar hyn o bryd, yn cael ei llunio'n derfynol yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn gynharach eleni, yn gosod fframwaith ar gyfer asesu a dal y cyfleoedd gwaith y gellid eu creu drwy symud tuag at | Lansiwyd y Strategaeth Swyddi Gwyrdd ym mis Gorffennaf 2009 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn gynharach y flwyddyn honno. Mae'n gosod y fframwaith ar gyfer asesu a chymryd mantais ar gyfleoedd cyflogaeth a allai gael eu creu gan symudiad tuag at economi carbon isel. Drwy'r Strategaeth Swyddi Gwyrdd byddwn yn canfod sut y gellir darparu sgiliau ar gyfer datblygu, gosod a chynhyrchu technolegau cynaliadwy.<br><br>Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda phartneriaid megis Bwrdd |

| | | |
|---|---|---|
| | economi carbon isel cynaliadwy.<br><br>Y Strategaeth Swyddi Gwyrdd fydd y strategaeth datblygu economaidd drosfwaol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn cyflawni economi cynaliadwy i Gymru. Mae'r Strategaeth Swyddi Gwyrdd yn rhoi cyfle i ni ymateb i'r her ddeuol o newid yn yr hinsawdd a'r sefyllfa economaidd.<br><br>Trwy'r Strategaeth Swyddi Gwyrdd, byddwn yn adnabod sut y caiff sgiliau eu darparu ar gyfer datblygu, sefydlu a gweithgynhyrchu technolegau cynaliadwy. Ar yr ochr ynni yn benodol, mae gennym Hyrwyddwr Sgiliau y Sector Ynni ac mae rhai o'r Sefydliadau Addysg Bellach yn buddsoddi mewn cyfleusterau hyfforddiant newydd fel y rhai a geir yng Ngholeg Penfro a fydd yn agor ddechrau'r haf.<br><br>Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda phartneriaid megis Bwrdd Cyflogaeth a | Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a'r Cynghorau Sgiliau Sector i ddatblygu'r meini prawf a'r fethodoleg i ymgymryd ag asesiad o'r cyfleoedd cyflogaeth a allai gael eu creu yng Nghymru drwy leihau allyriadau carbon.<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar ein Strategaeth Swyddi Gwyrdd, sy'n cyflwyno'r ymrwymiad a wnaed yn rhaglen llywodraeth Cymru'n Un. Mae'n elfen bwysig o ran symbylu adferiad o'r dirywiad economaidd presennol, yn ogystal â chryfhau ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd.<br><br>Mae'n ategu ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy (Cymru'n Un:Cenedl Un Blaned) ac yn rhannu ei weledigaeth o economi wydn a chynaliadwy i Gymru a all ddatblygu wrth sefydlogi, ac yna leihau, ei defnydd o adnoddau naturiol a lleihau ei chyfraniad i newid yn yr hinsawdd.<br>Mae *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd* hefyd yn adlewyrchu'n llawn ein hymrwymiad i wneud Cymru'n genedl wirioneddol gynaliadwy, gydag economi â gwastraff isel, sy'n effeithlon o ran adnoddau ac yn garbon isel.<br><br>Yr ydym am i fusnesau gael eu harfogi i wynebu'r dyfodol yn hyderus, drwy gymryd cyfleoedd ar gyfer twf a chynyddu eu |

| | | |
|---|---|---|
| | Sgiliau Cymru a’r Cynghorau Sgiliau Sector i ddatblygu’r meini prawf a’r fethodoleg er mwyn cynnal asesiad o’r cyfleoedd gwaith y gellid eu creu yng Nghymru drwy leihau allyriadau carbon.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – Bydd unrhyw gostau sy’n gysylltiedig â chynnal yr asesiad yn dod o gyllidebau presennol | cystadleurwydd.<br><br>Yr ydym yn annog newid i economi fwy cynaliadwy drwy amrywiaeth o weithgareddau, y cyfan ohonynt yn allweddol o ran cyflawni adroddiad y Pwyllgor, gan gynnwys:<br><br>• ‘Glasu’ swyddi presennol,<br>• Ysgogi creu swyddi gwyrdd newydd i gryfhau’r sector ynni carbon isel yng Nghymru.<br>• Cynllunio a darparu’r seilwaith<br>•<br>• Buddsoddi mewn adfywio<br>• Caffael<br><br>Mae cynhyrchu swyddi yn yr Economi Werdd yn gofyn am weithredu ar draws Llywodraeth y Cynulliad a chyfranogaeth ein partneriaid yn y sectorau preifat a chyhoeddus a mudiadau cymdeithasol.Cydnabyddir hyn yn y Strategaeth Swyddi Gwyrdd. |
| 3.<br>Dyma argymhelliad y Pwyllgor:<br><br>Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu/adnewyddu’r strategaethau economaidd presennol er mwyn rhoi proffil uchel i’r broses o leihau allyriadau carbon a bod yn glir am y ffordd y gall weithredu fel un o egwyddorion allweddol twf economaidd cynaliadwy. | **Ymateb:** Derbyn<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn.<br><br>Bydd y Strategaeth Swyddi Gwyrdd yn cyflawni elfennau allweddol o Bennod Economi Cynaliadwy y Cynllun Datblygu Cynaliadwy newydd ac, yn ei thro, bydd yn sbardun arwyddocaol i weithgarwch economaidd Llywodraeth y Cynulliad.<br><br>Gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad ymrwymiad clir i leihau allyriadau | |

| | | |
|---|---|---|
| | nwyon tŷ gwydr yn *Cymru'n Un*. Nodir yn gwbl glir yn yr ymgynghoriad ar y *Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd - Datganiad Polisi Lefel Uchel*, yr ymgynghoriad ar y *Strategaeth Swyddi Gwyrdd*, y *Cynllun Datblygu Cynaliadwy* newydd a'r ymgynghoriad ar y *Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd - Rhaglen Weithredu* mai bwriad polisi datblygu economaidd Llywodraeth y Cynulliad yw cyflawni datblygiad cynaliadwy ac mae'n cydnabod pwysigrwydd lleihau allyriadau carbon.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Mae datblygiad Strategaeth Swyddi Gwyrdd eisoes ar waith a'r costau wedi'u hadeiladu i mewn i gyllidebau presennol. | |
| 4.<br>Dyma argymhelliad y Pwyllgor:<br><br>Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno ad-daliadau ardrethi busnes ar raddfa symudol i fusnesau nad ydynt yn rhan o unrhyw gynlluniau masnachu | **Ymateb:** Gwrthod<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwrthod yr argymhelliad hwn oherwydd nad oes tystiolaeth ddigonol i ddangos y byddai'n ffordd gost effeithiol | Pery Llywodraeth y Cynulliad o'r farn nad oes tystiolaeth ddigonol y byddai gweithredu'r argymhelliad yn ffordd gost-effeithiol o hyrwyddo lleihau carbon. |

| | | |
|---|---|---|
| carbon os ydynt yn cyrraedd lefelau cytûn o leihau allyriadau carbon neu lefelau achredu cytûn mewn cynlluniau megis Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd. | o hyrwyddo gostyngiad mewn allyriadau carbon. Yr achos, mewn egwyddor, yw y gall ardrethi busnes fod yn gyfrwng i gymell rhai gweithgareddau, ond mae'r goblygiadau o ran costau yn sylweddol. Byddai amrywiad o 1% yn lefel y cynnydd mewn ardrethi busnes, yng Nghymru yn unig, yn golygu cost o oddeutu £8 miliwn i Lywodraeth y Cynulliad.<br><br>Heb feddu ar ddadansoddiad manwl o'r arbedion carbon a fyddai'n debygol o gael eu creu am y gwariant hwn, nid yw hyn yn rhywbeth y gall Llywodraeth y Cynulliad fynd ar ei drywydd.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** - Dim oherwydd bod yr argymhelliad yn cael ei wrthod. | |
| 5.<br>Dyma argymhelliad y Pwyllgor:<br><br>Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn pennu targedau ar gyfer lleihau allyriadau carbon | **Ymateb:** Derbyn yn rhannol<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol. Byddwn | Yn y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd, pennwyd uchafswm lefel allyriadau ar gyfer 2020 o ran allyriadau uniongyrchol o'r sector cyhoeddus i adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth y |

| | | |
|---|---|---|
| ar gyfer yr holl sector cyhoeddus yng Nghymru fel rhan o ymrwymiad lleihau allyriadau carbon Cymru'n Un. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried pennu'r targedau hynny yn uwch na 3% ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. | yn gosod targed ar gyfer allyriadau sector cyhoeddus yn unol â'r hyn a nodir yn *Cymru'n Un* ond, ar hyn o bryd, nid ydym yn gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch y lefel y dylid pennu'r targed arni.<br><br>Yn yr ymgynghoriad ar y *Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd – Datganiad Polisi Lefel Uchel*, cafwyd amlinelliad o'n dull arfaethedig o weithredu sef pennu targed o 3% o leihad y flwyddyn i'r sector cyhoeddus. Byddwn yn ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad ac argymhelliad y Pwyllgor wrth wneud penderfyniad terfynol ynghylch lefel y targed wrth gyhoeddi'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd ar ei ffurf derfynol yn ddiweddarach eleni.<br><br>Byddwn hefyd yn ystyried y cyfleoedd a'r cyfyngiadau a fydd yn effeithio ar wahanol rannau o'r sector cyhoeddus o safbwynt cyflawni lefelau uwch o leihau allyriadau carbon. Er enghraifft, mewn perthynas â | Cynulliad y bydd y sector cyhoeddus yn arwain drwy esiampl.Yr ydym hefyd yn disgwyl i'r sector cyhoeddus ddylanwadu'n llawer ehangach ar leihau allyriadau drwy gyflwyno'u gwasanaethau, drwy gaffael a thrwy'u rôl fel arweinwyr cymunedol ac yr ydym yn disgwyl i'r sector cyhoeddus fanteisio i'r eithaf ar y cyfraniad ehangach.<br><br>I ddarparu targedau heriol, gan ar yr un pryd gadw hyblygrwydd i'r sector cyhoeddus ganfod a mabwysiadu mesurau newydd, yr ydym wedi penderfynu gosod targed ar gyfer lleiafswm lefel y gostyngiad mewn allyriadau y byddem yn disgwyl ei weld, gan obeithio gweld gwella arno dros y cyfnod.<br><br>Amlygwyd y targed hwn gan Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, ynghyd â chamau cyfredol ac i'r dyfodol ar leihau allyriadau y disgwylir iddynt leihau allyriadau o waelodlin y sector cyhoeddus o 1,13 Mt Co2e i 0.83 Mt Co2e erbyn 2020.<br><br>Mae'r Strategaeth hefyd yn amlinellu camau i leihau allyriadau yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys:<br>• Ymwreiddio newid yn yr hinsawdd mewn Strategaethau Cymunedol drwy arweiniad a rhannu arfer da.<br>• Lleihau ôl-troed carbon ystâd |

| | | |
|---|---|---|
| | chynnydd yn y galw am drydan o fewn y GIG neu sialensiau arbennig yr adeiladau a berthyn i gyrff y sector cyhoeddus yn y portffolio Treftadaeth.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – Defnyddir cyllidebau rhaglenni presennol i ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol a bydd y goblygiadau ariannol yn llywio'r penderfyniadau terfynol ynghylch lefel y targed. | Llywodraeth y Cynulliad.<br>• Lleihau ôl-troed carbon gwasanaethau addysg ac iechyd<br>• Darparu adeiladau'r sector cyhoeddus i safonau uwch o ran perfformiad ynni<br>• Galluogi cyfraniadau ehangach gan eraill.<br>• Cefnogi newid ymddygiad ar draws y sector cyhoeddus |
| 6.<br>Dyma argymhelliad y Pwyllgor:<br><br>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydweithio'n agos â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chyrff sector cyhoeddus eraill i lunio canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus a fydd yn pennu mannau cychwyn cyffredin, casglu gwybodaeth a chyflwyno adroddiadau ar leihau allyriadau carbon er mwyn sicrhau ffordd gyson a dealladwy o gydweithio. | **Ymateb: Derbyn**<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd sicrhau gwell data am allyriadau yn bwysig o ran cynorthwyo cyrff i dargedu camau gweithredu a mesur y cynnydd; a bydd yn fuddiol cyflawni mwy o gysondeb ar draws cyrff a rhannu arfer dda.<br><br>Bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi canllawiau, yn unol â gofynion adran 83 Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, i osod allan modd i gyrff adrodd ar allyriadau mewn | Mae Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu ystod o arfau a fframwaith i gefnogi awdurdodau lleol i leihau allyriadau. Defnyddir adolygiad o ddangosyddion perfformiad Awdurdodau Lleol i helpu goleuo Llywodraeth y Cynulliad ac Awdurdodau Lleol ynghylch eu llinell sylfaen o ran defnydd ynni a Co2e. Mae mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd wedi cael ei wreiddio yn y Fframwaith Cytundebau Canlyniadau newydd ar gyfer llywodraeth leol a bydd yn galluogi gwelliant cynyddol.<br><br>Yn ogystal, bydd llawer o awdurdodau lleol yn dod dan Gynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon. |

| | | |
|---|---|---|
| | ffordd gyson. Bydd y canllawiau yn goleuo dull Llywodraeth y Cynulliad o weithredu.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – Gellir defnyddio cyllidebau presennol ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol. | |
| 7.<br>Dyma argymhelliad y Pwyllgor:<br><br>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sicrhau mwy o arian i gyrff cyhoeddus priodol er mwyn rhoi hwb cychwynnol i raglenni cyfalaf ar gyfer lleihau allyriadau carbon. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gytuno ar raglen i wneud iawn am yr arian cyfalaf drwy arbedion dilynol mewn biliau ynni (gan ystyried newidiadau sylweddol i bisiau tanwydd) pan roddir yr arian. | **Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae'r *Cynllun Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni* yn nodi ein bwriad i ddatblygu benthyciadau buddsoddi i arbed sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon fel rhan o'r ymgynghori ar y *Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd - Rhaglen Weithredu*.<br><br>Caiff manylion y dull gweithredu eu cadarnhau yn dilyn yr ymgynghoriad.<br><br>Mae'r gronfa Buddsoddi i Arbed, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, wedi'i chynllunio i gyflawni | Buddsoddodd Llywodraeth y Cynulliad £4.5m mewn rhaglen buddsoddi i arbed yn y sector cyhoeddus i hyrwyddo arbedion ynni a charbon yn 2009/10.<br><br>Hefyd, cadarnhaodd y gyllideb ddiweddar £2.9 miliwn yn ychwanegol ar gyfer y rhaglen yn 2010/11.<br><br>O 2011/12 bydd yr ad-daliadau benthyciadau o'r prosiectau yn cychwyn ac fe'u defnyddir i ail-fuddsoddi mewn prosiectau newydd, gan ddarparu rhaglen hunangynhaliol. |

| | | |
|---|---|---|
| | arbedion sy'n rhyddhau arian parod gan gyrff y sector cyhoeddus.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Ceir goblygiadau ariannol yn sgil darparu cyllid i roi hwb cychwynnol i raglenni cyfalaf. Gall y rhaglen fenthyciadau arfaethedig i gynnig benthyciadau buddsoddi i arbed ar gyfer effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon ddod o gyllidebau presennol. | |
| 8.<br>Dyma argymhelliad y Pwyllgor:<br><br>Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu a diwygio'r holl dargedau a bennwyd ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru, yn ôl y gofyn, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r targedau lleihau allyriadau carbon. | **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r egwyddor sydd wraidd yr argymhelliad – hynny yw, sicrhau bod ein prosesau yn helpu i sbarduno'r broses o leihau allyriadau.<br><br>Yr ydym yn awyddus i osgoi sefyllfa lle mae'r targedau a osodwn am resymau polisi eraill yn darparu cymhelliant, yn | Pery Llywodraeth y Cynulliad o'r farn na fyddai'n effeithiol cynnal adolygiad cynhwysfawr o dargedau ond bod y rhain yn faterion y gellir ymdrin â hwy fel rhan o adolygiad arferol. |

| | | |
|---|---|---|
| | anfwriadol, i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr. Byddwn yn ystyried y risg hon a ffyrdd o'i hosgoi fel rhan o'r broses o bennu targedau newydd i gyrff cyhoeddus neu wrth adolygu a diweddaru targedau cyfredol.<br><br>Nid ydym wedi derbyn yr argymhelliad hwn yn ei gyfanrwydd oherwydd nad ydym yn ystyried y byddai adolygu'r holl dargedau ar raddfa eang yn ddefnydd effeithiol o adnoddau a byddai angen i ni hefyd asesu'r goblygiadau ehangach o newid targedau y mae corff sector cyhoeddus wedi bod yn gweithio atynt.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – Dim, oherwydd ein bod yn bwriadu asesu targedau mewn perthynas â lleihau allyriadau fel rhan o adolygiadau ehangach o'r targedau i gyrff cyhoeddus. Gall y costau hyn ddod o gyllidebau presennol. | |

**Adroddiad ar Leihau Allyriadau Carbon wrth Gynhyrchu Ynni (cyhoeddwyd Mai 2009). Ymatebwyd iddo gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**

| **Prif Argymhelliad** | **Ymateb** | **Diweddariad** |
|---|---|---|
| 1.<br><br>Er ein bod yn cydnabod y diffyg pwerau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dros gynhyrchu ynni tanwydd ffosil yng Nghymru, rydym yn argymell fod Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o'i strategaeth ynni, yn llunio fframwaith strategol ar gyfer yr holl waith cynhyrchu ynni yng Nghymru, gan ddangos y cymysgedd dewisol ar gyfer Cymru o ran gofod a chynhyrchu. | **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Bydd Strategaeth Ynni gyffredinol Cymru yn amlinellu'r cyfraniad a ddisgwylir gan amrywiaeth o ffynonellau ynni adnewyddadwy ar gyfer y cyfnod y tu hwnt i 2010, yn ogystal â chynhyrchu ynni ar raddfa fawr yng Nghymru o ffynonellau niwclear a thanwydd ffosil.<br><br>**Goblygiadau ariannol:** Cwmpesir gan y gyllideb gyfredol. | Mae Datganiad Polisi Chwyldro Carbon Isel Llywodraeth y Cynulliad (Mawrth 2010) yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer cynhyrchu ynni carbon-isel yng Nghymru. Bydd ein harf polisi newydd, y Fframweithiau Strategol Ynni Morol Adnewyddadwy (MRESF) – i'w cyhoeddi Mawrth 2011 – nodi adnoddau ynni morol o gwmpas Cymru. Gwnaeth TAN 8 rywbeth tebyg ar gyfer ffermydd gwynt ar y tir. |
| 2.<br>Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal adolygiad trylwyr i ganfod a yw'r seilwaith trafnidiaeth a chysylltiadau'r grid yn ddigonol ar gyfer adeiladu gweithfeydd tanwydd ffosil a gweithfeydd ynni adnewyddadwy yn yr ardaloedd a nodir yn y fframwaith strategol a gaiff ei argymell ym mhrif argymhelliad 1. | **Ymateb: Derbyn yn rhannol**<br><br>Mae'r materion sy'n codi'n ymwneud â phrosiectau gwynt ar y tir yn bennaf. Rydym yn ymwybodol bod gan y gwaith o ddatblygu ffermydd gwynt ar y tir, yn enwedig yn y Canolbarth, oblygiadau mewn perthynas â rheoli a chludo deunyddiau adeiladu. Rydym yn trafod dull strategol o reoli'r materion cludo hyn gyda BWEA, datblygwyr y diwydiant a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys arbenigwyr trafnidiaeth Llywodraeth y | Comisiynwyd adroddiad ar y grid Cymreig fel rhan o'r Fframwaith Strategol Ynni Morol Adnewyddadwy a fydd yn goleuo'r adroddiad terfynol.<br><br>Mae Adran yr Economi a Thrafnidiaeth wedi comisiynu gwaith sylweddol ar oblygiadau cludiant adeiladau ffermydd gwynt.<br>Nid oes unrhyw newid yn y rhan o'r ymateb hwn sy'n ymwneud â |
| 3.<br>Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn | | |

| | | |
|---|---|---|
| parhau i annog cwmnïau grid a dosbarthu i gydweithio â'r datblygwyr i ddatblygu<br>dull integredig o gysylltiadau ar gyfer ynni adnewyddadwy mawr. | Cynulliad. Ein nod yw sicrhau ein bod yn cydweithio, gan leihau effaith y gweithgarwch hwn ar gymunedau lleol.<br><br>Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 (TAN 8) yn cydnabod y bydd angen atgyfnerthu'r grid trydan er mwyn cyflawni ein dyheadau mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn gweithio gyda'r Grid Cenedlaethol a dosbarthwyr i drafod gofynion penodol y gwaith o gryfhau'r seilwaith. Mae'r Grid Cenedlaethol yn cynnig mabwysiadu polisi "buddsoddiad strategol" i'w alluogi i wella gallu trosglwyddo newydd er mwyn ymateb i ofynion defnyddwyr. Mae'r Grid Cenedlaethol wedi trafod pedair ardal bosibl yn y DU gydag Ofgem, gan gynnwys buddsoddiad strategol yn y Canolbarth. Mae'r Grid Cenedlaethol wrthi'n edrych ar lwybrau ac effeithiau amgylcheddol seilwaith newydd, ymgysylltu â chymunedau a mynd i'r afael â phryderon cymunedau. Mae Llywodraeth y Cynulliad a'r Grid Cenedlaethol yn croesawu canfyddiadau astudiaeth yr Electricity Networks Strategy Group (ENSG) ar y Rhwydwaith Trosglwyddo Trydan.<br><br>**Goblygiadau ariannol**: Nid yw cost y gwelliannau ffordd sydd eu hangen fel y gellir cludo cydrannau tyrbinau | TAN 8. |

| | | |
|---|---|---|
| | gwynt i safleoedd mewn Llwythi Anrhanadwy Annormal wedi'u pennu hyd yma. Bydd angen help yr Heddlu i gludo'r cydrannau hyn yn ddiogel. Datblygwyr y fferm wynt fydd yn gyfrifol am y costau hyn.<br><br>Hefyd, nid Llywodraeth y Cynulliad fydd yn gyfrifol am dalu costau atgyfnerthu'r grid. Mae adroddiad ENSG yn nodi y bydd angen adeiladu cylched newydd o Wylfa i Bentir ac ail gylched o Bentir i Drawsfynydd, ynghyd â gwaith cysylltiedig ymhellach i'r dwyrain, os bydd cyfanswm yr ynni a gynhyrchir ar ffermydd gwynt neu mewn gweithfeydd niwclear ar Ynys Môn yn fwy nag 1.8GW. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at greu is-orsaf ganolog y bydd pob fferm wynt yn y Canolbarth yn cysylltu â hi. O'r is-orsaf hon, bydd un llwybr trosglwyddo'n cysylltu â Lloegr. Mae union leoliadau'r is-orsaf a'r pwynt cysylltu'n cael eu gwerthuso. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £225 miliwn. | |
| 4.<br>Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn symleiddio nifer a natur y targedau a osodwyd ar gyfer lleihau allyriadau carbon ac yn sicrhau bod cysondeb a chysylltiad penodol rhwng y targedau ar gyfer ynni | **Ymateb: Derbyn**<br>Mae'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn darparu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer gweithredu ar bolisi ynni a newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Mae angen i'n holl dargedau a chamau gweithredu gyd-fynd â'r weledigaeth a amlinellir yn y Cynllun a'n nod o sicrhau | Mae targedau wedi'u symleiddio'n gynwysedig yn y Strategaeth ar Newid yn yr Hinsawdd a'r Datganiad Polisi Chwyldro Carbon Isel. |

| | | |
|---|---|---|
| adnewyddadwy a lleihau allyriadau carbon. | bod Cymru'n datblygu'n genedl un blaned.<br><br>Ein hymrwymiad i sicrhau gostyngiad blynyddol o 3% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig yw'r targed cyffredinol ar gyfer mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae'n rhan allweddol o fframwaith cadarn o dargedau yn y DU, yr UE ac yn rhyngwladol ar gyfer lleihau allyriadau a hyrwyddo ynni adnewyddadwy.<br><br>Wrth ddatblygu ein Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd, a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni, byddwn yn adolygu'r ystod o dargedau cyfredol ac yn ceisio'u symleiddio lle bo hynny'n bosibl.<br><br>**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol gan fod yr argymhellion yn cynnig symleiddio'r targedau presennol a sicrhau eu bod yn cyfateb i'w gilydd. | |
| 5.<br>Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn canolbwyntio ar yr hyn a gyflawnwyd gan y targedau a osodwyd ganddi drwy:<br><br>roi digon o gymhelliant ar gyfer ymchwilio i dechnolegau ynni adnewyddadwy yng Nghymru, eu datblygu | **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**<br>Bydd y Strategaeth Swyddi Gwyrdd, sydd wrthi'n cael ei chwblhau yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn gynharach eleni, yn gosod y fframwaith ar gyfer asesu a manteisio ar y cyfleoedd gwaith a allai gael eu creu trwy symud i economi carbon isel, gan | Lansiwyd y Strategaeth Swyddi Gwyrdd ym mis Gorffennaf 2009 ac y mae'n cyfeirio'n benodol at ddarparu cefnogaeth i ymchwil a datblygu drwy'r Gronfa Cefnogaeth Hyblyg i Fusnes.<br><br>Mae cefnogaeth sylweddol ar gael |

| | | |
|---|---|---|
| a'u gweithgynhyrchu;<br><br>cyhoeddi arweiniad a chyngor ar ffyrdd o gyrraedd y targedau hynny;<br><br>rhannu enghreifftiau o arfer da gan sefydliadau ac unigolion sy'n cyrraedd y targedau yn eang. | gynnwys cynhyrchu ynni carbon isel.<br><br>Trwy'r Strategaeth Swyddi Gwyrdd, byddwn yn nodi sut y darperir sgiliau ar gyfer datblygu, gosod a chynhyrchu technolegau cynaliadwy. Er enghraifft, mae gennym Hyrwyddwr Sgiliau Sector Ynni ac mae rhai o'r Sefydliadau Addysg Bellach yn buddsoddi mewn cyfleusterau hyfforddi newydd fel y rheini yng Ngholeg Sir Benfro a fydd yn agor ddechrau'r haf.<br><br>Mae cymorth sylweddol ar gael trwy raglenni Cronfa Gydgyfeirio a Chystadleurwydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Yn ddiweddar, cymeradwywyd rhaglen cefnogi ynni biomas Cymru (WEBS) ac rydym yng nghyfnod olaf y gwaith o ddatblygu prosiect ar gyfer prosiectau cynhyrchu ynni carbon isel ar raddfa gymunedol. Un o elfennau allweddol y prosiect yw sefydlu rhwydwaith o gynghorwyr a fydd yn darparu cyngor a chymorth arbenigol i'r rheini sy'n datblygu prosiectau.<br><br>Cafodd y gwaith o greu sefydliad ymchwil carbon isel Cymru ei gefnogi gan grant ad-drefnu a chydweithredu o £5 miliwn gan CCAUC.<br><br>Rydym yn gweithio i gefnogi'r gwaith o ledaenu arfer da ym mhob sector, er enghraifft: | drwy raglenni Cronfa Cydgyfeiriant a Chystadleurwydd WEFO. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n rheoli'r rhaglen gefnogi ynni biomas Cymru (WEBS). Yr ydym hefyd wedi sicrhau cyllid ERDF ar gyfer y prosiect cynhyrchu ynni ar raddfa gymunedol, Ynni'r Fro.<br><br>Elfen allweddol o'r prosiect yw'r rhwydwaith o gynghorwyr sy'n darparu cyngor arbenigol a chefnogaeth i'r rhai sy'n datblygu prosiectau.<br><br>Cyhoeddwyd £34 miliwn o gyllid i'r Sefydliad Ymchwil Carbon Isel ym mis Hydref 2009 (mae £15 miliwn o'r cyllid hwn yn arian cydgyfeiriant).<br><br>Mae'r Llawlyfr Carbon Isel i Gynllunwyr, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2010 yn cynnig methodoleg sy'n galluogi awdurdodau lleol i ddatblygu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer asesu'r posibilrwydd o gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon-isel. Gall yr wybodaeth danategu |

| | | |
|---|---|---|
| | ○ Rydym yn cefnogi Cynnal Cymru, sy'n darparu manylion am brosiectau ynni adnewyddadwy ar ei wefan a thrwy sianeli cyfathrebu eraill<br>○ Rydym wedi datblygu pecyn gweithredu cymunedol a DVD cysylltiedig, sy'n cynnwys cyngor ac astudiaethau achos o brosiectau ynni adnewyddadwy<br>○ Rydym wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer grwpiau cymunedol, gan ddarparu cyngor a chymorth, rhannu arfer da a rhwydweithio, ac mae'r gwaith o helpu i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach wedi bod yn thema allweddol yn y digwyddiadau hyn<br>○ Rydym yn ariannu'r Ymddiriedolaeth Garbon i ddarparu cyngor a chymorth yng Nghymru, ac mae'n dosbarthu arfer da ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y sector cyhoeddus a busnes<br>○ Rydym yn gweithio trwy Grwpiau Ardaloedd y Cynllun Gofodol i ddatblygu'r syniad o 'ranbarthau carbon isel' ac mae'r angen i rannu profiadau ac arfer da | polisïau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon-isel yn y cynllun datblygu lleol. Mae'r llawlyfr hefyd yn cynnwys enghreifftiau o ymarfer da.<br><br>Llwyddodd ein gweithgaredd cynnwys y gymuned i gysylltu prosiectau ynni cymunedol â'i gilydd a dangos arfer da. |

| | | |
|---|---|---|
| | wedi bod yn thema amlwg yn y trafodaethau hynny. Rydym yn datblygu cynlluniau ar hyn. Rydym hefyd yn gweithio i rannu'r arfer da sy'n codi o Fyrddau Gwasanaethau Lleol sy'n nodi bod mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd neu hyrwyddo datblygu cynaliadwy'n fwy eang yn thema allweddol.<br><br>Mae cymhellion ar gyfer ymchwil a datblygu technolegau ynni adnewyddadwy ar gael yn rhaglenni Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a chan y Grŵp Technoleg ac Arloesi yn ein His-adran yn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth. Mae cyllid ar gyfer busnes ar gael gan gynllun Cefnogi Arloesedd Arbenigol y prosiect Arloesi Busnes newydd a chan y Gronfa Fuddsoddi Sengl. Gellir darparu cymorth i'r sector academaidd trwy'r prosiect Academia for Business 'A4B' a ariennir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Gellir cael cyngor ar ffynonellau allanol o gyllid ymchwil a datblygu gan grŵp Rhwydwaith Menter Ewrop yng Nghymru. Gellir hefyd cael cyngor a chymorth ar gynhyrchu technolegau ynni adnewyddadwy trwy'r prosiect Arloesi Busnes.<br><br>**Goblygiadau ariannol:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cwmpesir o fewn cyllidebau cyfredol, ac eithrio'r Prosiect Ynni Cymunedol na fydd yn parhau oni bai bod cyllid Ewropeaidd ar gael. Bydd rhaid i Lywodraeth y Cynulliad dalu cost uniongyrchol o oddeutu £350,000 bob blwyddyn ariannol am y gwasanaeth gweinyddu a chynghori. | |
| 6.<br>**Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn archwilio'r posibilrwydd y gallai awdurdodau lleol yng Nghymru roi benthyciadau ar gyfer gosod technoleg microgynhyrchu domestig, e.e. cynllun Kirklees, neu ad-daliadau yn seiliedig ar fwydo'r refeniw tariff.** | **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**<br>Byddwn yn edrych ar y dewisiadau mewn perthynas â datblygu cynllun benthyciadau i annog deiliaid tai i fanteisio mwy ar dechnoleg microgynhyrchu. Bydd yr ystyriaeth hon yn mynd i'r afael ag:<br><br>o Achos busnes rhaglen o'r fath a sut mae'n cyfateb i ffynonellau cyllid eraill, gan gynnwys Llywodraeth y DU<br>o Ffynonellau cyllid posibl i gefnogi rhaglen o'r fath<br>o Maint a gweithrediad rhaglen o'r fath, gan gynnwys rhoi ystyriaeth lawn i'r corff darparu mwyaf priodol<br><br>Rydym eisoes yn ariannu'r Ymddiriedolaeth Garbon yng Nghymru ac mae benthyciadau i fusnesau bach a chanolig ar gyfer gosod technoleg carbon isel yn rhan allweddol o'r rhaglen y mae'r cyllid hwnnw'n ei chefnogi.<br><br>Amlinellodd y *Cynllun* | Yr ydym yn ystyried yr opsiynau o gwmpas datblygu cynllun benthyca ac yn ystyried sut y gallai rhaglen o'r fath gyd-fynd â'r Tariffau Bwydo i Mewn a/neu'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy a'r Fargen Werdd.<br><br>Yr oedd y *Cynllun Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni Cenedlaethol* yn datgan ein bwriad i ddatblygu benthyciadau buddsoddi i arbed yn y sector cyhoeddus yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon. Yn 2009/10 bu i ni ddyfarnu £4.5m drwy Salix, sef is-gwmni i'r Ymddiriedolaeth Garbon, ar gyfer cronfa buddsoddi i arbed y sector cyhoeddus a chyhoeddwyd cyllid pellach yn ddiweddar ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Yr ydym yn disgwyl ail-fuddsoddi'r cyllid hwn |

| | | |
|---|---|---|
| | *Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni* ein bwriad i ddatblygu benthyciadau buddsoddi i arbed yn y sector cyhoeddus sy’n canolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon fel rhan o’r ymgynghoriad ar *y Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd - Rhaglen Weithredu*. Caiff y ffordd ymlaen ei chadarnhau yn dilyn yr ymgynghoriad.<br><br>**Goblygiadau ariannol:** Byddai goblygiadau ariannol yn codi o ganlyniad i ddatblygu cynllun a fyddai’n galluogi awdurdodau lleol i ddarparu benthyciadau ar gyfer technoleg microgynhyrchu i ddeiliaid tai. Byddai’r goblygiadau hyn yn amrywio yn dibynnu ar faint y cynllun, ond byddai angen dros £1 miliwn er mwyn cael unrhyw effaith. Rydym yn datblygu’r argymhelliad hwn ar sail y ffaith y byddwn yn ceisio manteisio ar ffynonellau cyllid amgen ar gyfer cynllun o’r fath, yn hytrach na chyllidebau Llywodraeth y Cynulliad. | mewn rhaglenni lleihau carbon yn y sector cyhoeddus fel y caiff ei ad-dalu i’r gronfa.<br><br>**Goblygiadau ariannol:** Fe all y bydd goblygiadau o ran Cymorth Gwladol cysylltiedig â chartrefi’n derbyn benthyciad yn ogystal â hawlio Tariffau Bwydo i Mewn a/neu’r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy. |

**Adroddiad ar Leihau Allyriadau Carbon o Ddefnydd Tir (cyhoeddwyd Medi 2009). Ymatebwyd iddo gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig**

| Prif Argymhelliad * | Ymateb | Diweddariad |
|---|---|---|
| 3. Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU a’r UE i sicrhau bod lleihau allyriadau carbon yn un o amcanion allweddol unrhyw gynllun taliadau sydd ar gael i bob fferm yn ystod adolygiad nesaf y Polisi Amaethyddol Cyffredin. | **Ymateb: Derbyn**.<br><br>Mae'r PAC yn chwarae rhan gref o ran mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a lliniaru'i effeithiau ac mae camau wedi'u cymryd eisoes i gynnwys pryderon am y newid yn yr hinsawdd yn y PAC a hynny drwy Agenda'r Her. Yn ogystal, nodwyd bod y newid yn yr hinsawdd yn faes blaenoriaeth gan y Pwyllgor Sefydlog ar Ymchwil Amaethyddol (SCAR), a sefydlwyd gweithgor o reolwyr rhaglenni cenedlaethol er mwyn ystyried sut y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar amaethyddiaeth, a sut y gall amaethyddiaeth fynd ati i addasu ar gyfer yr effeithiau hyn a'u lliniaru.<br><br>Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gydweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn sicrhau bod amaethyddiaeth yn chwarae ei ran wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy leihau ei allyriadau nwyon ei hun, gwella gallu pridd amaethyddol i weithredu fel dalfa carbon, a chyfrannu at y broses o gynhyrchu ynni | Dim diweddariad pellach. |

| | | |
|---|---|---|
| | adnewyddadwy a bio-nwyddau. | |
| 4.<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gwasanaeth penodol i ffermwyr a rheolwyr tir sy’n rhoi gwybodaeth iddynt am leihau allyriadau carbon. | **Ymateb: Derbyn**.<br><br>Bydd Rhaglen Ddatblygu Cyswllt Ffermio ar gyfer y newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru yn codi ymwybyddiaeth o'r materion (risgiau, cyfrifoldebau a chyfleoedd) ac yn cydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu opsiynau ymarferol a chynaliadwy er mwyn helpu rheolwyr tir i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Bydd y rhaglen yn cefnogi'r diwydiant drwy ystod o wasanaethau hyfforddi a throsglwyddo gwybodaeth, gan sicrhau bod yr wybodaeth ar gael er mwyn helpu rheolwyr tir i fabwysiadu dulliau newydd o weithredu, dangos arferion da a thechnolegau newydd ar y fferm, rhannu syniadau a'u hannog i fod yn arloesol. Bydd gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar lefel leol a bydd yn berthnasol i anghenion y diwydiant gan ddefnyddio technegau sydd wedi'u profi megis ffermydd arddangos, digwyddiadau a grwpiau trafod. Caiff yr holl weithgareddau eu cefnogi gan Swyddogion Hyrwyddo Trosglwyddo Gwybodaeth Rhanbarthol, sydd â phrofiad o arbenigedd technegol a sgiliau cyfathrebu.<br>Bydd y Rhaglen Ddatblygu | Sefydlwyd Rhaglen Ddatblygu Cyswllt Ffermio ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru yn 2009 drwy gydweithrediad Prifysgolion Aberystwyth a Bangor ac mae’r Rhaglen Ddatblygu Newid yn yr Hinsawdd newydd yn gweithio mewn cydweithrediad â Rhaglenni Datblygu Presennol Cyswllt Ffermio. |

| | | |
|---|---|---|
| | newydd ar y Newid yn yr Hinsawdd yn cydweithio gyda Rhaglenni Datblygu presennol Cyswllt Ffermio (Llaeth, Cig Coch, Organig a Rheoli Tir). Gyda'i gilydd byddant yn rhoi cefnogaeth i'r diwydiant ar themâu trawsbynciol eraill megis rheoli amgylcheddol, iechyd anifeiliaid, lles a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. | |
| 5.<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r syniad o ddatblygu a chyflwyno dull o fesur ôl-troed carbon y gall pob ffermwr a rheolwr tir ei ddefnyddio gan wneud hynny cyn gynted â phosibl. Dylid ei gyflwyno'n raddol gan gynnig cyngor a chymorth i bob ffermwr a rheolwr tir ynglŷn â sut i'w ddefnyddio. | **Ymateb: Derbyn.**<br><br>Dyfarnwyd Rhaglen Ddatblygu Cyswllt Ffermio ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd i Brifysgolion Aberystwyth a Bangor sydd â phrofiad helaeth o gyfrif allyriadau carbon ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir. Mae hyn yn cynnwys offer i fesur allyriadau ar y fferm yn ogystal ag offer mesur ôl-troed carbon. Caiff y broses o gyflwyno gwybodaeth ar reoli'r defnydd o ynni a lleihau allyriadau carbon ei rhaeadru drwy nifer o wahanol ddulliau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth megis grwpiau trafod, ffermydd datblygu a digwyddiadau arddangos ar ffermydd. Bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth am fanteision cyfrif ôl-troed carbon i'r diwydiant. Gall ffermwyr a rheolwyr tir wneud cais am gymorth a chyngor pellach â chymhorthdal ar reoli allyriadau carbon drwy Gynllun y Fferm Gyfan | Enghreifftiau o waith diweddar yw astudiaethau ar olion traed carbon ar gyfer ffermydd cig oen a chig eidion o fewn Menter Mynyddoedd Cambria. |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyswllt Ffermio. | |
| 8.<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ymchwil sydd ar y gweill ar hyn o bryd i gadw carbon mewn priddoedd yng Nghymru a defnyddio'r darganfyddiadau hynny wrth greu polisïau defnyddio tir a pholisïau amaethyddol, cyn gynted ag y byddant ar gael. | **Ymateb: Derbyn**.<br><br>Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd rhan yn y gwaith o reoli'r gyllideb ymchwil sy'n cael ei rhannu gyda DEFRA, sy'n cadw cyllideb ymchwil a datblygu Cymru a Lloegr. Y mae hefyd yn ariannu ychydig bach o waith ymchwil ei hun er mwyn cwmpasu materion sy'n ymwneud â phriddoedd Cymru yn bennaf, yn enwedig o ran rheoli carbon mewn priddoedd. Cafodd ECOSSE 1 ei ariannu gan Weithrediaeth y Alban a Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac ariannwyd y gwaith dilynol er mwyn asesu'r broses o roi ECOSSE ar waith mewn rhannau o Gymru. Mae canfyddiadau'r prosiect hwn yn cael eu cynnwys yn Glastir lle bo hynny'n briodol. | Nid oes dim pellach i'w ychwanegu. |
| 9.<br>Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU a'r UE i sicrhau bod rheoliadau pendant ar gael i ddiogelu priddoedd. | **Derbyn**. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cysylltu gyda DEFRA sy'n arwaintrafodaethau'r DU ar Gyfarwyddeb Fframwaith Priddoedd yr UE. Cytunwyd bod angen sicrhau lefel uchel o ddiogelwch rheoliadol i briddoedd, ond mae'r trafodaethau yn ymwneud yn bennaf â'r dulliau gorau o ddarparu'r diogelwch hwnnw. | Nid oes dim pellach i'w ychwanegu. |

| | | |
|---|---|---|
| 12.<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymchwil i'r modd y gellir rhoi cynllun masnachu carbon ar waith, yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y sector defnyddio tir. | **Ymateb: Reject**<br><br>Mae DEFRA wedi ariannu astudiaeth ddichonoldeb ar ddatblygu cynllun masnachu carbon o fewn y sector amaethyddol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y byddai costau gweinyddu cynllun o'r fath yn y DU yn uchel o'u cymharu â'r arbedion posibl. Y rheswm am hyn yw<br>• ei bod hi'n anodd dilysu'r allyriadau carbon sydd wedi'u harbed neu'u storio o ganlyniad i ddefnydd / rheolaeth tir penodol.<br>• mae angen storio carbon yn barhaol ac ni ddylid ei ollwng yn rhydd rhywbryd yn y dyfodol oherwydd newid yn y defnydd tir a'r ffordd y caiff ei reoli;<br>• mae'r nifer uchel o ffermwyr a thirfeddianwyr yn gwneud y gwaith gweinyddol yn gostus iawn. | Nid oes dim pellach i'w ychwanegu. |

*Nodwch os gwelwch yn dda na wnaeth y Pwyllgor unrhyw brif argymhellion yn yr adroddiad hwn ond ei fod yn nodi'r argymhellion a amlinellir uchod fel rhai allweddol ar gyfer lleihau carbon drwy ddefnydd tir.